



office of the
independent
adjudicator

'for students in higher education'

Y fframwaith
arfer da:

*Gweithdrefnau
disgyblu*



Hydref 2018



Cynnwys

Rhestr astudiaethau achos	4
Rhagarweiniad	5
Gweithdrefnau disgyblu da	6
Egwyddorion allweddol	6
Iaith syml	7
Tegwch gweithdrefnol	7
Baich prawf	7
Safon prawf	8
Cyfrinachedd ac anhysbysrwydd	8
Prydlondeb	8
Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol	8
Rhoi cymorth i'r myfyriwr	9
Perthynas â gweithdrefnau eraill	10
Ailystyried yr un drosedd	11
Camymddwyn a ddynodir ar ôl i'r myfyriwr raddio	11
Rhan A: Gweithdrefnau disgyblu academiaidd	12
Beth yw camymddwyn academiaidd?	12
Esbonio llên-ladrad	13
Y cwestiwn o fwriad	14
Barn academiaidd	15
Meddalwedd canfod	15
Ystyriaethau cychwynnol ac ymchwiliad rhagarweiniol	16
Y cam ffurfiol	16
Ymchwiliadau'r cam ffurfiol	17
Gwrandawiadau disgyblu neu gyfarfodydd panel	17
Perthnasedd troseddau blaenorol	18
Cosb	19
Achosion yn ymwneud â mwy nag un myfyriwr	20
Dod â'r cam ffurfiol i ben	20

Y cam apêl	20
Dod â'r cam apêl i ben	21
Adolygiad allanol annibynnol (SDA)	21
Rhan B: Gweithdrefnau disgyblu anacademaidd	22
Beth yw camymddwyn anacademaidd?	22
Aflonyddu, camwahaniaethu a bwlio	23
Newid y diwylliant	23
Achosion yn ymwneud â honiadau gan fyfyrwr yn erbyn myfyrwr arall neu aelod o staff	24
Ystyriaethau cychwynnol ac ymchwiliad rhagarweiniol	25
Pan fo angen gweithredu ar unwaith yn ystod ymchwiliad disgyblu	26
Ymddygiad sy'n gyfystyr â throedd dan y gyfraith	27
Y cam ffurfiol	28
Ymchwiliadau'r cam ffurfiol	28
Gwrandawiriadau disgyblu neu gyfarfodydd panel	28
Perthnasedd troseddau blaenorol	30
Cosb	30
Achosion yn ymwneud â mwy nag un myfyrwr	31
Dod â'r cam ffurfiol i ben	32
Y cam apêl	32
Cwyn gan fyfyrwr arall	33
Dod â'r cam apêl i ben	33
Adolygiad allanol annibynnol (SDA)	33
Adnoddau defnyddiol a chyfeiriadau at ddogfennau mewn troednodyn	34

Rhestr astudiaethau achos

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys nifer o astudiaethau achos sy'n dangos enghreifftiau o arfer da.

Astudiaeth Achos 1 Myfyriwr ag anawsterau iechyd meddwl	9
Astudiaeth Achos 2 Camymddwyn gan fyfyrwyr ac addasrwydd i ymarfer	10
Astudiaeth Achos 3 Cyn-fyfyriwr wedi'i gyhuddo o lèn-ladrad	11
Astudiaeth Achos 4 Llên-ladrad neu arfer academaidd gwael?	13
Astudiaeth Achos 5 Myfyriwr yn dod â nodiadau i mewn i arholiad: cwestiwn o fwriad	14
Astudiaeth Achos 6 Arfer academaidd gwael blaenorol	19
Astudiaeth Achos 7 Lleihau'r gosb oherwydd effaith anghymesur	19
Astudiaeth Achos 8 Myfyriwr yn cwyno am aelod o staff	24
Astudiaeth Achos 9 Arfer da wrth drefnu gwrandawriad	30
Astudiaeth Achos 10 Ymddygiad aflonyddgar blaenorol	30
Astudiaeth Achos 11 Amgylchiadau lliniarol / cyfaddef y drosedd	31

Rhagarweiniad

1. Mae'r Fframwaith Arfer Da: ymdrin â chwynion ac apeliadau academaidd yn gosod egwyddorion craidd ac arfer da gweithredol ar gyfer darparwyr addysg uwch yng Nghymru a Lloegr. Yr egwyddorion craidd yw: **hygyrchedd; eglurder; cymesuredd; prydlondeb; tegwch; annibyniaeth; cyfrinachedd; a gwella profiad myfyrwyr.**
2. Mae'r adran hon o'r Fframwaith Arfer Da yn rhoi canllawiau arfer da i ddarparwyr eu hystyried wrth fynd ati i ddylunio gweithdrefnau disgyblu a phan fyddant yn ymdrin ag achosion unigol. Mae'n cwmpasu'r canlynol:
 - gweithdrefnau disgyblu academaidd, ar gyfer delio â chamymddwyn academaidd fel llên-ladrad, twyllo ar gontract, twyllo mewn arholiadau neu asesiadau ffurfiol, ffugio data, gweithredu'n groes i bolisiau ymchwil neu foeseg, a chydgyllwynio; hefyd
 - gweithdrefnau disgyblu anacademaidd, ar gyfer delio â chamymddwyn fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, ymosodol neu fygythiol, camymddwyn rhywiol, trais, aflonyddu, troseddau casineb, ymddygiad sy'n debygol o ddwyn anfri ar y darparwyr, difrod i eiddo neu gam-ddefnyddio cyfleusterau, achosi pryder iechyd neu ddiogelwch, ac ymddygiad arall a allai hefyd fod yn drosedd dan y gyfraith.
3. Bydd gan ddarparwyr addysg uwch ddisgwyliadau o ran sut y dylai myfyrwyr ymddwyn. Dylai darparwyr nodi'r safonau ymddygiad disgwyliedig yn ei reoliadau, cod ymddygiad myfyrwyr, contractau myfyrwyr neu godau ymarfer eraill. Efallai y bydd rhaid i fyfyrwyr ar gyrsiau sy'n arwain at gymhwyster proffesiynol hefyd gadw at safonau ymddygiad a osodir gan reoleiddwyr proffesiynol, ac fel rheol ymdrinnir â honiadau sy'n ymwneud ag addasrwydd i ymarfer myfyrwyr o'r fath o dan weithdrefnau addasrwydd i ymarfer ar wahân. Dylai rheolau a rheoliadau darparwyr ei alluogi i weithredu os yw safonau ymddygiad yn disgyn yn is na'r hyn a ddisgwyilir.
4. Fel arfer bydd gan ddarparwyr weithdrefnau ar wahân ar gyfer delio â chamymddwyn academaidd ac anacademaidd. Bydd y gweithdrefnau fel arfer yn nodi'r safonau disgwyliedig o ymddygiad, pa fathau o ymddygiad sy'n debygol o arwain at weithredu ar ran y darparwyr, a pha gamau y bydd y darparwyr yn eu cymryd. Dylai darparwyr ddwyn y safonau ymddygiad disgwyliedig i sylw myfyrwyr, yn ogystal â chanlyniadau gweithredu'n groes i'r safonau hynny, er enghraifft mewn codau ymddygiad neu siartrau myfyrwyr. Dylai myfyrwyr a staff hefyd fod yn ymwybodol o'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn fewnol ac yn allanol, ar gyfer myfyrwyr sy'n cael eu cyhuddo o gamymddwyn a'r rhai sy'n gwneud honiadau o gamymddwyn.
5. Rhestrir y dogfennau y cyfeirir atynt yn yr Adran hon o'r Fframwaith Arfer Da, a ffynonellau arweiniad defnyddiol eraill, o dan Adnoddau Defnyddiol ar ddiwedd yr Adran.

Gweithdrefnau disgyblu da

Egwyddorion allweddol

HYGYRCHEDD

- Maent yn weladwy, yn amlwg ac yn hawdd i fyfyrwyr a staff eu dilyn
- Maent yn rhoi gwybodaeth glir ynghylch sut i gael gafael ar gyngor a chymorth
- Maent yn caniatáu i fyfyrwyr benodi cynrychiolydd
- Maent yn gallu ymateb i anghenion myfyrwyr

EGLURDER

- Maent yn rhan o fframwaith sy'n rhoi gwybodaeth glir i fyfyrwyr am safonau ymddygiad disgwylidiedig
- Cyfeirir atynt yn glir ac maent yn hawdd eu deall
- Maent yn nodi sut y bydd y darparwydd yn ymateb i gamymddwyn honedig, gan gynnwys manylion unrhyw gosb bosibl a'i ymagwedd at amgylchiadau lliniarol
- Maent yn sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n effeithiol, yn unol â pholisïau rheoli cofnodion a phreifatrwydd a gyhoeddir

CYMESUREDD

- Mae disgwyl i'r naill ochr a'r llall ymddwyn yn rhesymol tuag at ei gilydd, a thrin y prosesau eu hunain â pharch
- Maent yn caniatáu i achosion gael eu datrys yn anffurfiol ac mor gynnar â phosibl, er enghraifft os yw'r myfyriwr yn cyfaddef i gamymddygiad sydd ddim yn ddirifol
- Maent yn sicrhau, yn achos camymddwyn a allai hefyd fod yn drosedd dan y gyfraith, bod gwahaniaeth priodol yn cael ei wneud rhwng materion troseddol a materion disgyblu mewnol
- Maent yn caniatáu i gamau rhagofalus priodol gael eu cymryd, os oes angen, wrth i'r achos gael ei ystyried
- Maent yn cynnwys hyd at dri cham: ymchwiliad rhagarweiniol, cam ffurfiol ac apêl
- Maent yn sicrhau bod unrhyw gosb yn gymesur â'r drosedd a bod ffactorau lliniarol yn cael eu hystyried wrth ddyfarnu cosb o'r fath

PRYDLONDEB

- Maent yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl, ac fel rheol o fewn 90 diwrnod calendr i ddechrau'r ymchwiliad (ni fyddai'r amserlen hon fel arfer yn cynnwys yr amser a gymerir gan unrhyw ymchwiliad troseddol neu erlyniad)
- Maent yn caniatáu ar gyfer dynodi achosion sy'n gofyn am weithredu cyflym.
- Maent yn rhoi rhybudd rhesymol ar gyfer unrhyw wrandawriad
- Maent yn cynnwys terfynau amser ar gyfer cyflwyniadau gan fyfyrwyr, megis datganiadau

TEGWCH

- Maent yn sicrhau bod prosesau'n cael eu gweithredu'n gyson
- Maent yn sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau yn cael eu hyfforddi'n gywir, a bod adnoddau a chefnogaeth ar eu cyfer
- Maent yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael gwybod beth yw'r honiad(au) yn eu herbyn ac yn cael cyfle teg i ymateb
- Maent yn gosod y baich o ddangos tystiolaeth ar y darparwydd
- Maent fel rheol yn gwneud penderfyniad ar yr achos ar sail cydbwysedd tebygolrwydd
- Mae ganddynt brosesau teg ar gyfer delio ag achosion sy'n ymwneud â mwy nag un myfyriwr
- Mewn achos o gamymddwyn honedig yn erbyn myfyriwr arall, maent yn darparu cefnogaeth briodol i bawb sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad
- Maent yn sicrhau bod rhesymau clir yn cael eu rhoi dros benderfyniadau a wneir, gan gynnwys unrhyw gosb a ddyfernir
- Maent yn caniatáu hawl i apelio

ANNIBYNAETH

- Maent yn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud gan bobl nad ydynt wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol a does dim canfyddiad rhesymol o ragfarn

CYFRINACHEDD

- Maent yn sicrhau lefel briodol o gyfrinachedd i'r rheiny sydd dan sylw sy'n ddigonol i ganiatáu ymchwiliad effeithiol

GWELLA PROFIAD Y MYFYRWYR

- Maent yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol
- Maent yn diogelu buddiannau a diogelwch myfyrwyr a staff
- Maent yn cipio dysgu er mwyn sicrhau:
 - Bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyson
 - Bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y lefel briodol.
 - Bod camau priodol yn cael eu cymryd ar faterion a nodwyd
 - Bod gwybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i wella arweiniad a chefnogaeth i fyfyrwyr

Iaith syml

6. Dylai darparwyr ysgrifennu eu rheoliadau a'u gweithdrefnau yn glir ac mewn iaith syml a'u gwneud yn hygyrch i fyfyrwyr. Dylid defnyddio cyn lleied â phosibl o droednodiadau, a dylid diffinio acronymau.

Tegwch gweithdrefnol

7. Mae gweithdrefnau teg yn dilyn egwyddorion "cyfiawnder naturiol":

- "Ni ddylai unrhyw un fod yn farnwr yn ei achos ei hun" - rhaid i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau ymwneud â materion heb ragfarn na chanfyddiad rhesymol o ragfarn;
- "Clywed safbwynt yr ochr arall" - rhaid i'r naill ochr a'r llall gael gwrandawriad teg;
- "Mae cyfiawnder wedi'i ohirio'n gyfiawnder wedi'i wadu" - rhaid cwblhau'r broses heb oedi.

Yn ogystal, rhaid i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau wneud penderfyniadau rhesymol, a rhoi rhesymau dros eu penderfyniadau.

8. Mewn gweithdrefnau disgyblu, mae hyn yn golygu:
- Bod myfyrwyr yn deall unrhyw honiad yn eu herbyn;
 - Bod y myfyriwr a'r unigolyn sy'n dwyn yr honiad yn cael cyfle teg i gyflwyno eu hachos ac i glywed ac ymateb i'r hyn y mae'r llall wedi'i ddweud;
 - Rhoddir rhybudd rhesymol i fyfyrwyr ar gyfer unrhyw wrandawriad, a rhoddir copiâu ymlaen llaw iddynt o'r holl wybodaeth i'w hystyried gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad;
 - Esbonnir baich a safon y prawf yn glir;
 - Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fod yn rhydd o ragfarn neu unrhyw ganfyddiad rhesymol o ragfarn;
 - Dylid rhoi rhesymau dros wneud penderfyniadau a dyfarnu unrhyw gosb;

- Dylai fod llwybr i'w ddilyn ar gyfer apelio; a
- Dylid cynnal yr ymchwiliad, unrhyw wrandawriad ac unrhyw apêl cyn gynted â phosibl, er tegwch.

9. Dylai darparwyr weithio'n agos gydag undebau myfyrwyr a myfyrwyr i gynllunio prosesau neu ddiwygio prosesau sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau eu bod yn dilyn egwyddorion arfer da a thegwch gweithdrefnol. Mae egwyddorion hygyrchedd, tegwch ac annibyniaeth yn arbennig o bwysig mewn gweithdrefnau disgyblu. Dylai gweithdrefnau darparydd fod yn hawdd eu deall a dylent roi gwybodaeth glir am sut i gael gafael ar gyngor a chymorth. Dylai darparwyr sicrhau bod y gweithdrefnau'n cael eu gweithredu'n gyson, ac nad yw aelodau staff sy'n gwneud penderfyniadau wedi ymwneud â'r achos o'r blaen, eu bod wedi'u hyfforddi'n briodol a bod adnoddau ar eu cyfer. Mae'n arfer da cynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr hyfforddedig ar baneli disgyblu lle bo hynny'n bosibl, er bod rhaid gwahaniaethu'n briodol rhwng y cynrychiolydd ar y panel, a'r rhai sy'n darparu cyngor a chymorth i fyfyrwyr.

Baich prawf

10. Y "baich prawf" sy'n penderfynu cyfrifoldeb pwy yw profi'r achos. Mewn achos disgyblu dylai'r baich prawf fod ar y darparydd, hynny yw, rhaid i'r darparydd brofi bod y myfyriwr wedi gwneud yr hyn y cyhuddir ef o'i wneud. Ni ddylai'r myfyriwr orfod gwrthbrofi'r honiad. Felly, er enghraifft, os cyhuddir myfyriwr o fynd â ffôn symudol i mewn i arholiad, mater i'r darparydd fydd profi bod y ffôn yn ei feddiant yn ystod yr arholiad.
11. Weithiau bydd angen i'r myfyriwr brofi ei fod wedi gwneud rhywbeth neu ei fod heb wneud rhywbeth, neu fod rhywbeth wedi digwydd. Er enghraifft, os cyhuddir dau fyfyriwr o lén-ladrad, a bod un myfyriwr yn darparu tystiolaeth mai eu gwaith nhw oedd y gwreiddiol, ac mai'r myfyriwr arall oedd wedi'i gopïo, bydd angen i'r myfyriwr arall wrthbrofi'r dystiolaeth honno. Bydd angen i fyfyrwyr hefyd brofi unrhyw ffactorau lliniarol y maent yn dibynnu arnynt pan fydd y darparydd yn ystyried y gosb.

Safon prawf

- 12.** Y “safon prawf” yw lefel y prawf sy’n ofynnol. Mewn gweithdrefnau cyfreithiol, y safon prawf ar gyfer achosion troseddol fel arfer yw “tu hwnt i amheuaeth resymol”, sy’n safon uchel iawn. Mewn achosion sifil fel arfer defnyddir “cydbwysedd tebygolrwydd”, hynny yw, mae’n fwy tebygol na pheidio bod rhywbeth wedi digwydd. Er bod y safon “cydbwysedd tebygolrwydd” yn is na “tu hwnt i amheuaeth resymol”, rhaid i benderfyniadau fod yn seiliedig ar dystiolaeth yn yr un ffordd. Mae’r safon yn uwch na dim ond credu bod rhywbeth yn debygol o fod wedi digwydd.
- 13.** Dywed adran 112 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 fod yn rhaid defnyddio’r safon prawf sifil mewn gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Dylai’r safon hon hefyd gael ei defnyddio mewn achosion disgyblu a allai arwain at achos addasrwydd i ymarfer yn erbyn myfyriwr.
- 14.** Dylai rheoliadau darparwydd esbonio’n glir safon y prawf sy’n ofynnol mewn achosion disgyblu ond, os na wnânt hynny, mae’n rhesymol tybio mai “cydbwysedd tebygolrwydd” yw’r safon a ddefnyddir.

Cyfrinachedd ac anhysbysrwydd

- 15.** Dylai darparwyr ystyried eu rhwymedigaethau o dan y ddeddfwriaeth diogelu data ynghylch gwybodaeth bersonol sensitif, neu “ddata categori arbennig”. Dylid cadw gwybodaeth am fyfyrwyr sy’n destun achos disgyblu yn gyfrinachol cyn belled ag y bo modd. Dylai’r wybodaeth gael ei datgelu i gyn lleied o bobl â phosibl, a dim ond i’r rhai sy’n ymwneud ag ymchwilio i’r mater neu wneud penderfyniad arno.
- 16.** Nid yw’n briodol fel rheol cadw gwybodaeth am bwy yw tystion yn gyfrinachol yn ystod achos disgyblu. Gall gwneud hynny danseilio gallu’r myfyriwr i amddiffyn ei hun. Os nad yw’r tyst yn cytuno i’r myfyriwr wybod pwy ydyw, efallai na fydd yn briodol dibynnu ar ei dystiolaeth.

Prydlondeb

- 17.** Gall materion disgyblu beri straen mawr i fyfyrwyr, a gall y deilliannau arwain at effeithiau difrifol ar eu hastudiaethau a’u gyrfaedd yn y dyfodol. Felly mae’n arbennig o bwysig bod yr ymchwiliadau disgyblu, gwrandawliadau ac apeliadau yn cael eu cynnal cyn gynted â phosibl, er tegwch. Mae’n arfer da, lle bo hynny’n bosibl:
- dweud wrth y myfyriwr bod camau disgyblu yn cael eu hystyried cyn gynted â phosibl ar ôl y digwyddiad a arweiniodd at yr honiad;
 - cwblhau’r ymchwiliad cychwynnol a cham ffurfiol y broses cyn pen 60 diwrnod ar ôl i’r honiad gael ei wneud yn erbyn y myfyriwr; a
 - clywed unrhyw apêl o fewn 30 diwrnod i’r myfyriwr ei chyflwyno.
- 18.** Mae oedi’n debygol o ddigwydd pan fydd yr achos yn gymhleth, pan nad yw’r myfyriwr neu’r tystion ar gael i fynychu cyfarfodydd neu wrandawliadau, neu pan gaiff achos ei ohirio oherwydd ymchwiliad troseddol neu fod gan y myfyriwr asesiadau ar y gweill. Yn yr achosion hynny, dylai’r darparwydd roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r myfyriwr ac unrhyw dystion am hynt yr ymchwiliad, a phryd y mae’n debygol o ddod i ben.

Hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol

- 19.** Dylai darparwyr ddwyn y safonau ymddygiad disgwylid i sylw myfyrwyr, yn ogystal â chanlyniadau gweithredu’n groes i’r safonau hynny, er enghraifft mewn codau ymddygiad neu siartrau myfyrwyr.
- 20.** Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gymryd camau i ddileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i feithrin perthnasoedd da. Dylai darparwyr godi ymwybyddiaeth ynghylch yr ymddygiad a ddisgwylir gan fyfyrwyr, gan ddefnyddio mentrau addysgol i herio agweddau negyddol a stereoteipiau, ynghyd â galluogi staff a myfyrwyr i ddynodi a herio ymddygiad annerbyniol.

21. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd myfyrwyr, eu cynrychiolwyr ac aelodau staff yn ymddwyn yn rhesymol a theg tuag at ei gilydd, ac y byddant yn trin y broses ddisgyblu â pharch; Mae'n arfer da i ddarparwyr nodi'r disgwyliad hwnnw'n glir mewn gweithdrefnau disgyblu.

Rhoi cymorth i'r myfyriwr

22. Dylai darparwyr gyfeirio myfyrwyr at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael, er enghraifft undeb y myfyrwyr, sy'n gallu darparu cymorth a chyngor annibynnol. Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n mynd drwy weithdrefnau disgyblu ac i fyfyrwyr sy'n darparu gwybodaeth ynglŷn ag ymddygiad rhywun arall sy'n cael ei ystyried o dan y gweithdrefnau hynny. Mae'n arfer da ei gwneud yn bosibl i fyfyrwyr gael mynediad at gymorth a chyngor a, lle nad yw'n ymarferol gwneud hynny yn fewnol, dylai darparwyr ystyried gwneud trefniadau i alluogi myfyrwyr i gael gafael ar wasanaethau cymorth mewn sefydliadau cyfagos, darparwyr partner neu wasanaethau eraill yn y gymuned leol.

23. Fel rheol ni fydd angen i fyfyrwyr sydd â mynediad at wasanaethau cymorth myfyrwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda ac sydd ag adnoddau digonol, ofyn am gyngor cyfreithiol, er efallai y byddant am wneud hynny mewn achosion difrifol. Mae'n arfer da i ddarparwyr ganiatáu cynrychiolaeth gyfreithiol mewn achosion disgyblu cymhleth, neu lle gallai'r canlyniadau i'r myfyriwr fod yn ddifrifol iawn o bosib.

24. Dylai darparwyr fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer myfyrwyr anabl. Os yw'r myfyriwr yn dweud bod yr ymddygiad a arweiniodd at y mater disgyblu yn gysylltiedig â'i anabledd, dylai'r darparwydd ystyried yn ofalus a ddylid bwrw ymlaen â chamau disgyblu, neu gyfeirio'r myfyriwr at brosesau cymorth i astudio, neu addaswydd i astudio.

25. Mae'n arfer da sicrhau bod gweithdrefnau ar gael i bob myfyriwr mewn gwahanol fformatau hygrych. Dylai darparwyr ystyried ym mhob

achos a ddylid gwneud addasiadau rhesymol i weithdrefnau er mwyn rhoi ystyriaeth i anghenion unigol myfyrwyr. Mae'n arfer da cadw cofnod o unrhyw addasiadau a wnaed. Mewn gweithdrefnau disgyblu, mae'n bosibl y bydd angen i ddarparwyr wneud addasiadau i'r broses a ddilynir mewn achosion unigol. Er enghraifft, efallai y bydd angen i'r darparwydd wneud addasiadau ar gyfer gwrandawriadau camymddwyn, neu ganiatáu mwy o amser i fyfyriwr ymateb i honiadau.

26. Mae hefyd yn bosibl y bydd angen i ddarparwyr ystyried anabledd myfyriwr wrth ddyfarnu unrhyw gosb. Er enghraifft, os oedd ymddygiad y myfyriwr yn gysylltiedig â chyflwr iechyd meddwl sylfaenol, gallai hynny liniaru difrifoldeb y drosedd. Mewn rhai achosion, gall fod yn fwy priodol cyfeirio'r myfyriwr at brosesau cymorth i astudio, neu addaswydd i astudio, na dyfarnu cosb.

ASTUDIAETH ACHOS 1

Myfyriwr ag anawsterau iechyd meddwl

Cyhuddir myfyrwraig o lèn-ladrad yn ei thraethawd hir. Mae'r fyfyrwraig yn derbyn ei bod wedi copïo darnau sylweddol o'r traethawd hir o ffynhonnell arall. Mae'r fyfyrwraig yn dioddef o bryder ac iselder ac mae'n egluro ei bod wedi'i chael yn anodd ymdopi â'i baich gwaith. Dywed iddi gopïo'r testun oherwydd ei bod yn poeni cymaint am gyflwyno'r traethawd hir mewn pryd, nes iddi fynd i banig.

Mae'r darparwydd yn dilyn ei weithdrefn camymddwyn academiaidd. Mae'r fyfyrwraig yn cael cymorth gan gynghorydd undeb y myfyrwyr gydol y broses. Mae'r darparwydd yn penderfynu bod y fyfyrwraig wedi llên-ladrata'r traethawd hir. Wrth ystyried yr ystod o gosbau posibl, mae'r darparwydd yn derbyn bod cyflwr iechyd meddwl y fyfyrwraig wedi effeithio ar ei gallu i wneud penderfyniadau. Mae'n penderfynu dyfarnu marc o sero, ond mae'n rhoi cyfle iddi ailgyflwyno'r traethawd hir.

27. Dylai darparwyr ddweud wrth fyfyrwyr sydd ag anawsterau iechyd meddwl ynglŷn â'r gwasanaethau cymorth penodol sydd ar gael iddynt, er enghraifft gwasanaethau cwnsela a, lle bo hynny'n briodol, gwasanaethau y tu allan i'r darparydd. Os yw'n ymddangos nad yw myfyriwr yn gallu ymgysylltu'n effeithiol â'r gweithdrefnau disgyblu, mae'n bosib y bydd y darparydd am awgrymu bod y myfyriwr yn penodi cynrychiolydd. Gall fod yn briodol gohirio'r broses ddisgyblu hyd nes y bydd y myfyriwr wedi cael gafael ar gymorth priodol.

Perthynas â gweithdrefnau eraill

28. Mae'n arfer da i ddarparwyr egluro sut mae eu gweithdrefnau'n cysylltu â'i gilydd. Er enghraifft:
- Gall myfyrwyr ar gyrsiau proffesiynol fod yn destun gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer yn ogystal â gweithdrefnau disgyblu;
 - Gellir cyfeirio myfyrwyr sy'n cael eu cyhuddo o fwlio neu aflonyddu, neu o ymddygiad a allai fod yn gamwahaniaethol, at weithdrefnau Aflonyddu, Camwahaniaethu a Bwlio'r darparydd;
 - Dylid cyfeirio cwyn am ymddygiad aelod o staff at broses ddisgyblu staff y darparydd;
 - Mae'n bosibl y bydd myfyriwr yn gallu gwneud cwyn o dan weithdrefn cwynion myfyrwyr y darparydd ynghylch y modd y mae'r darparydd wedi ymdrin â mater o dan ei weithdrefnau Aflonyddu, Camwahaniaethu a Bwlio;
 - Gall ymddygiad myfyriwr fod yn gamymddwyn academiaidd ac anacademaidd;
 - Gellir cyfeirio myfyriwr sydd wedi sicrhau mantais ariannol o ganlyniad i gamymddwyn at weithdrefnau twyll y darparydd.
29. Ym mhob achos, dylai'r darparydd nodi'n glir sut y bydd y gwahanol brosesau'n cael eu dilyn ac ym mha drefn. Pan fo honiad o gamymddwyn, dylai'r darparydd wirio yn gyntaf a ddylid ystyried y mater o dan ei weithdrefnau disgyblu neu o dan broses arall.

ASTUDIAETH ACHOS 2

Camymddwyn gan fyfyrwyr ac addasrwydd i ymarfer

Mae myfyriwr nyrzio (myfyriwr A) wedi'i gyhuddo o bostio negeseuon sarhaus a bygythiol am fyfyriwr arall (myfyriwr B) ar Facebook. Mae'r darparydd yn ysgrifennu at fyfyriwr A yn esbonio'r honiad a'r broses a ddilynir. Mae'r llythyr yn egluro, os ceir myfyriwr A yn euog o gamymddwyn, mae'n debygol y bydd yn cael ei gyfeirio at y broses addasrwydd i ymarfer ar ddiwedd y broses ddisgyblu. Yn amgaeedig gyda'r llythyr mae sgrinluniau o'r negeseuon, ynghyd â chopi o lythyr gan fyfyriwr B sy'n dweud bod y postiadau Facebook wedi ei ddychryn a'i ysgwyd.

Mae Myfyriwr A yn mynychu gwrandawriad panel disgyblu ac yn dweud mai myfyriwr arall bostiodd y negeseuon. Nid yw'r panel yn credu tystiolaeth myfyriwr A ac mae'n penderfynu ei fod yn euog o gamymddwyn. Wedyn mae'n mynd ymlaen i ystyried pa gosb i'w dyfarnu, ac mae myfyriwr A yn cyflwyno rhai ffactorau lliniarol. Mae'r panel yn penderfynu atal myfyriwr A am flwyddyn, gan esbonio pam eu bod wedi penderfynu nad yw cosb ysgafnach fel dirwy fach neu ataliad byrrach yn briodol. Mae'r darparydd yn ysgrifennu at fyfyriwr A yn gosod allan penderfyniad y panel, y gosb ddyfarnwyd, a'r rhesymau drostynt. Mae'n dweud wrth fyfyriwr A y gall apelio yn erbyn y penderfyniad a/neu'r gosb, sut mae'r broses apelio'n gweithio, a'r seiliau ar gyfer cyflwyno apêl. Mae hefyd yn dweud wrtho y bydd yr Ysgol Nyrzio nawr yn ystyried ei achos.

Ar ôl y gwrandawriad, mae'r Ysgol yn ysgrifennu at fyfyriwr A i egluro eu bod yn ymchwilio i'w achos o dan eu gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer, er mwyn penderfynu a yw ei gamymddygiad wedi amharu ar ei addasrwydd i ymarfer fel nyrz.

Ailystyried yr un drosedd

- 30.** Mae'n arfer da i weithdrefnau nodi unrhyw amgylchiadau lle gellir ailystyried honiad o gamymddwyn (heblaw drwy broses apelio ffurfiol). Er enghraifft, gall fod yn briodol i ddarparparydd ailystyried honiad pe bai tystiolaeth newydd yn dod i'r amlwg na allai'r darparparydd, am reswm da, fod wedi cael gafael arni ar y pryd. Wrth benderfynu a yw'n briodol ystyried honiad am yr eildro, dylai'r darparparydd bwysu a mesur:
- A oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â chanlyniad y broses gyntaf, ac os felly pam;
 - Faint o amser sydd wedi mynd heibio, ac effaith hynny ar ba mor ddibynadwy yw unrhyw dystiolaeth sydd i'w hystyried;
 - Difrifoldeb y drosedd honedig;
 - Yr effaith ar y myfyriwr o ymgymryd ag ail broses ddisgyblu;
 - A fyddai peidio â mynd i'r afael â'r mater yn effeithio ar addasrwydd i ymarfer, neu ar unrhyw rwymedigaethau sydd gan y darparparydd i gyrff proffesiynol neu reoleiddio parthed cymeriad y myfyriwr sydd dan sylw.

Camymddwyn a ddynodir ar ôl i'r myfyriwr raddio

- 31.** Mae'n arfer da i weithdrefnau disgyblu nodi'r amgylchiadau lle gallai'r darparparydd weithredu yn erbyn cyn-fyfyriwr, ac a oes ffin amser ar gyfer gweithredu o'r fath. Er enghraifft, gall gweithdrefnau disgyblu academaidd ganiatáu i'r darparparydd ddirymu gradd ymchwil unigolyn sawl blwyddyn ar ôl iddi gael ei dyfarnu, os canfyddir bod y person wedi llên-ladrata ei draethawd estynedig.
- 32.** Gall darparparydd ystyried dirymu cymhwyster myfyriwr os yw'r camymddwyn wedi rhoi mantais annheg iddo yn ei astudiaethau.

ASTUDIAETH ACHOS 3

Cyn-fyfyriwr wedi'i gyhuddo o llên-ladradd

Mae darparparydd yn darganfod y gallai cyn-fyfyriwr fod wedi llên-ladrata ei draethawd PhD. Mae'r darparparydd yn ysgrifennu at y cyn-fyfyriwr yn gosod allan yr honiad o llên-ladradd, ac yn egluro y gall, o dan ei reoliadau, ddirymu gradd os canfyddir camymddwyn academaidd. Mae'n gwahodd y cyn-fyfyriwr i gyfarfod o banel arbennig i drafod y traethawd ymchwil. Mae'r cyn-fyfyriwr yn cytuno i fynychu'r cyfarfod panel.

Yn y cyfarfod, rhoddir cyfle i'r cyn-fyfyriwr amddiffyn y traethawd ymchwil. Mae'r panel yn penderfynu bod y myfyriwr wedi llên-ladrata'r traethawd ymchwil a bod y llên-ladradd yn ddifrifol iawn. Mae'n dirymu doethuriaeth y cyn-fyfyriwr. Mae'r darparparydd yn dweud wrth y myfyriwr y gall apelio yn erbyn y penderfyniad.

Rhan A: Gweithdrefnau disgyblu academaidd

Beth yw camymddwyn academaidd?

33. Mae'n ofynnol i ddarparwyr sicrhau bod eu hasesiadau'n deg, yn ddilys ac yn ddibynadwy.¹ Mae unrhyw fath o dwyllo yn fygythiad i safonau academaidd cymwysterau'r darparydd, ac i hygredd y cymwysterau a ddyfernir i fwyafrif helaeth y myfyrwyr sy'n cyflawni eu cymhwyster yn gyfangwbl drwy ddulliau cyfreithlon.²

34. Mater i ddarparwyr unigol yw penderfynu pa ymddygiad gaiff ei ystyried yn gamymddwyn academaidd. Dylai darparwyr sicrhau bod eu diffiniadau'n glir, a'u bod yn cael eu cyfleu'n glir i fyfyrwyr. Dyma enghraifft o ddiffiniad o gamymddwyn academaidd:

"Unrhyw weithred gan fyfyrwr sy'n rhoi, neu sydd â'r potensial i roi, mantais annheg mewn arholiad neu asesiad, neu a allai gynorthwyo rhywun arall i ennill mantais annheg, neu unrhyw weithgaredd sy'n debygol o danseilio'r hygredd sy'n hanfodol i ysgolheictod ac ymchwil."

35. Dylai'r gweithdrefnau ddiffinio pob math o gamymddwyn, a nodi'r gosb bosibl y gellid ei dyfarnu yn ogystal â dull y darparydd o ystyried ffactorau lliniarol.

36. Mae enghreifftiau o gamymddwyn academaidd yn cynnwys:

- Llên-ladrad - cyflwyno gwaith neu syniadau rhywun arall fel gwaith y myfyrwr ei hun;
- Hunan-lên-ladrad - cyflwyno'r un gwaith ag y mae'r myfyrwr eisoes wedi'i gyflwyno
- ar gyfer asesiad arall pan na chaniateir hyn;
- Cymryd copi o waith myfyrwr arall heb ei ganiatâd;
- Ffugio data, tystiolaeth neu ganlyniadau arbrofol;
- Cydgyllwynio - gweithio gyda rhywun arall ar asesiad y bwriedir iddo fod yn waith y myfyrwr ei hun;
- Twyllo ar gontract - lle mae rhywun yn cwblhau gwaith ar ran myfyrwr, sydd wedyn yn ei gyflwyno fel ei waith ei hun (gan gynnwys defnyddio melinau traethawd neu brynu gwaith ar-lein);
- Trefnu i rywun arall ddynwared myfyrwr drwy sefyll arholiad yn ei le;
- Twyllo mewn arholiadau (neu asesiad ffurfiol arall), gan gynnwys bod â deunydd neu dechnoleg yn eu meddiant heb ganiatâd yn ystod arholiad, a cheisio cael gafael ar ddeunyddiau asesu nad oeddent i'w gweld ymlaen llaw cyn arholiad;
- Cyflwyno hawliadau amgylchiadau lliniarol twyllodrus neu ffugio tystiolaeth i gefnogi hawliadau amgylchiadau lliniarol (gellir ystyried hyn hefyd yn fater disgyblu anacademaidd);
- Gweithredu'n groes i bolisiau ymchwil a moeseg - e.e. cynnal ymchwil heb ganiatâd priodol.

1 ASA, Cod Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch: Pennod B6: Asesu Myfyrwyr a Chydnabyddiaeth i Ddysgu Blaenorol (Hydref 2013)

2 QAA, Llên-ladrad mewn Addysg Uwch: Gwasanaethau ysgrifennu traethodau wedi'u teilwra: archwiliad a'r camau nesaf ar gyfer sector addysg uwch y DU (Awst 2016)

Esbonio llên-ladrad

- 37.** Mae'n bwysig darparu addysg gynhwysfawr i bob myfyriwr ar yr hyn sy'n cael ei ystyried yn llên-ladrad. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig i fyfyrwyr rhyngwladol, gan y byddant o bosibl yn dod o wahanol draddodiadau academaidd. Efallai y bydd rhai myfyrwyr rhyngwladol yn cyrraedd yn hwyr ac yn methu'r sesiynau sefydlu, felly dylid cyflwyno sesiynau dal-i-fyny ar eu cyfer.
- 38.** Mae myfyrwyr yn derbyn llawer o wybodaeth pan fyddant yn dechrau ar eu hastudiaethau mewn addysg uwch. Mae'n arfer da i ddarparwyr ailadrodd hyfforddiant sy'n perthyn i gamymddwyn academaidd, ac i atgyfnerthu negeseuon am uniondeb academaidd, ar adegau priodol drwy gydol eu rhaglenni.
- 39.** Dylai'r hyfforddiant ymdrin â'r canlynol:
- Sut i gyfeirnod testun yn gywir;
 - A all copïo anfwriadol fod yn gyfystyr â llên-ladrad;
 - Sut i nodi bod testun yn cael ei ddyfynnu, er enghraifft, a oes angen i fyfyrwyr ddefnyddio dyfynodau a/neu destun wedi'i fewnoli;
 - A allai aralleirio helaeth fod yn gyfystyr â llên-ladrad;
 - A yw atgynhyrchu testun ar gof mewn arholiad yn gyfystyr â llên-ladrad;
 - Pryd y caniateir ac ni chaniateir hunan-lên-ladrad;
 - Mae prynu traethodau neu destun ar gyfer traethodau yn gyfystyr â llên-ladrad;
 - Gall clipiau fideo a sain, lluniau a thablau gael eu llên-ladrata;
 - Sut mae meddalwedd canfod yn cael ei ddefnyddio a'i ddehongli;
 - Y deilliannau i fyfyrwyr os canfyddir eu bod wedi llên-ladrata gwaith.

ASTUDIAETH ACHOS 4

Llên-ladrad neu arfer academaidd gwael?

Mae myfyriwr yn cyflwyno traethawd yn ystod ei dymor cyntaf. Mae tiwtor y myfyriwr yn sylwi bod y traethawd yn cynnwys darn bach o destun sy'n cael ei ddyfynnu'n uniongyrchol o ddeunyddiau'r gwaith cwrs. Nid yw'r testun a ddyfynnir yn cael ei wahanu o'r testun arall gan ddyfynodau, llythrennau italig neu destun wedi'i fewnoli.

Mae'r tiwtor yn dweud wrth y myfyriwr am ei phryderon ac yn ei wahodd i gyfarfod i drafod y traethawd. Dywed ei bod yn ystyried a ddylid cyfeirio'r myfyriwr at y gweithdrefnau camymddwyn academaidd.

Ar ôl trafodaeth, mae'r tiwtor yn penderfynu nad oedd y myfyriwr yn deall sut i gyfeirnod dyfyniadau. Mae hi'n penderfynu ystyried hyn fel arfer academaidd gwael wrth farcio'r gwaith. Mae hi'n esbonio'r gofynion cyfeirnod ac yn dangos i'r myfyriwr rai adnoddau hyfforddi ar fewnrwyd y darparydd. Mae'n dweud wrtho na fydd hi'n cymryd unrhyw gamau pellach, ond ei bod hi'n gwneud cofnod o'u trafodaethau, fel os bydd unrhyw amheuaeth o lôn-ladrad yn perthyn i'w waith yn y dyfodol, yna mae'n bosibl y bydd y digwyddiad yn cael ei ystyried.

Cwestiwn y bwriad

- 40.** Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio'r egwyddor o "atebolrwydd llym" i droseddau camymddwyn academiaidd. Golyga atebolrwydd llym nad yw bwriad myfyriwr yn berthnasol i'r cwestiwn a ydyn nhw wedi cyflawni'r drosedd ai peidio. Er enghraifft, os yw myfyriwr yn mynd â nodiadau i mewn i arholiad yn ddamweiniol, mae'n dal i fod yn euog o drosedd arholiad, hyd yn oed os na chymerodd y myfyriwr y nodiadau o'i boced yn ystod yr arholiad. Nid yw p'un a oedd y myfyriwr yn bwriadu defnyddio'r nodiadau yn ystod yr arholiad ai peidio yn berthnasol i'r drosedd.
- 41.** Mae gweithdrefnau rhai darparwyr yn ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr fod wedi gweithredu'n fwriadol i gyflawni trosedd. Weithiau cyfeirir at hyn fel "rhagfwriad", "twyll" neu "anonestrwydd". Mae p'un a oedd y myfyriwr yn bwriadu twylllo neu ennill mantais yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau benderfynu arno. Mewn achosion o'r fath dylai'r rhai sy'n gwneud y penderfyniadau ystyried y dystiolaeth o safbwynt bwriad, gan gynnwys yr hyn sydd gan y myfyriwr ei hun i'w ddweud, a chofnodi'r rhesymau dros eu casgliadau.
- 42.** Efallai na fydd bwriad y myfyriwr yn berthnasol o ran p'un a gyflawnodd y drosedd, ond mae'n debygol o fod yn ystyriaeth berthnasol wrth ddyfarnu'r gosb.
- 43.** Y darparydd unigol sydd i benderfynu sut i fynd i'r afael â'r cwestiwn o fwriad, ond dylai esbonio ei ymagweddiad yn glir yn ei weithdrefnau.

ASTUDIAETH ACHOS 5

Myfyrrwraig yn dod â nodiadau i mewn i arholiad: cwestiwn o fwriad

Yn ystod arholiad, mae goruchwyliwr yn gweld darn o bapur o dan gadair myfyrrwraig. Mae'r goruchwyliwr yn mynd at y fyfyrwraig ac yn ei holi am y darn o bapur. Dywed y fyfyrwraig iddi ddod o hyd iddo yn ei phoced a'i ollwng ar y llawr. Mae'r goruchwyliwr yn cymryd y darn o bapur ac yn ysgrifennu adroddiad am y digwyddiad. Caniateir i'r fyfyrwraig barhau â'r arholiad.

Ar ôl yr arholiad, mae'r darparydd yn ysgrifennu at y fyfyrwraig yn egluro ei fod yn cymryd camau disgyblu am fynd â deunydd heb ei awdurdodi i mewn i arholiad. Mae'r fyfyrwraig yn cyfaddef iddi ddod â nodiadau i'r arholiad, a bod y nodiadau'n berthnasol i'r papur arholiad. Dywed ei bod wedi anghofio bod y nodiadau yn ei phoced, a phan sylweddolodd hynny iddi ollwng y darn o bapur ar y llawr heb edrych arno.

Mae'r darparydd yn derbyn nad oedd y fyfyrwraig wedi bwriadu dod â'r nodiadau i'r arholiad gyda hi, ond mae'n dod i'r casgliad bod y fyfyrwraig serch hynny wedi dod â deunydd i'r arholiad heb awdurdod i wneud hynny. Mae'n penderfynu ei bod yn euog o gamymddwyn academiaidd. Mae'r darparydd yn cymryd i ystyriaeth nad oedd y fyfyrwraig wedi bwriadu twylllo, ac mai hon oedd ei throsedd gyntaf. Mae'n penderfynu rhoi marc o sero i'r fyfyrwraig am yr arholiad, ond mae'n caniatáu iddi ail-sefyll yr arholiad ar y cyfle nesaf.

Barn academaidd

- 44.** Yn aml, bydd canfod camymddygiad academaidd a amheuir a gwneud penderfyniadau ar achosion disgyblu yn cynnwys barn academaidd, ond nid felly mohoni bob tro. Lle rhoddir barn academaidd, dylai fod yn seiliedig ar dystiolaeth. Er enghraifft, dylai aelod staff academaidd sy'n dweud bod safon aseiniad yn anghyson â gwaith arall y myfyriwr, allu dangos hynny gydag enghreifftiau o waith arall y myfyriwr.
- 45.** Bydd dehongli adroddiadau meddalwedd canfod camymddwyn academaidd yn gofyn am farn academaidd. Mae'n arfer da rhannu'r dadansoddiad academaidd o adroddiad o'r fath gyda'r myfyriwr yn ogystal â'r adroddiad ei hun.
- 46.** Nid yw gwneud penderfyniad ar gwestiynau ffeithiol yn cynnwys barn academaidd.
- 47.** Ni fydd penderfyniadau yn ymwneud â dyfarnu unrhyw gosb mewn achosion disgyblu academaidd fel arfer yn cynnwys barn academaidd.

Cwestiynau sydd fel rheol yn ymwneud â barn academaidd

A yw safon y gwaith mor anghyson â gwaith arall y myfyriwr fel bod awgrym o dwyllo?

A yw'r syniadau wedi cael eu copio o waith rhywun arall?

A yw'r llên-ladrad yn sylweddol neu'n llai difrifol?

A yw nodiadau gwaith y myfyriwr yn cefnogi eu hachos mai eu gwaith nhw yw'r hyn a gyflwynwyd?

A yw'r syniadau y mae'r myfyriwr yn cyfeirio atynt mewn defnydd mor gyffredin fel nad ydynt yn enghraifft o lôn-ladrad?

Cwestiynau ffeithiol nad ydynt nhw fel rheol yn cynnwys barn academaidd

A wnaeth y myfyriwr hysbysebu am rywun i wneud y gwaith yn ei le?

A brynodd y myfyriwr draethawd ar-lein?

A gymerodd y myfyriwr nodiadau i'r arholiad?

A yw'r dyfyniadau wedi'u gwneud yn amlwg gyda thestun wedi'i fewnoli neu ddyfynodau?

A oedd y myfyriwr yn bwriadu twyllo?

Meddalwedd canfod

- 48.** Nid yw meddalwedd canfod llên-ladrad yn dynodi llên-ladrad, ond fel arfer bydd yn canfod testun sy'n cyfateb o ffynonellau gwaith electronig eraill a gyflwynwyd eisoes drwy'r feddalwedd honno. Mae dadansoddi'r adroddiadau a gynhyrchir gan feddalwedd canfod yn gofyn am farn academaidd. Nid yw sgôr tebygrwydd uchel o reidrwydd yn golygu bod gwaith wedi'i lôn-ladrata ac mae penderfyniadau ynghylch a yw'r rhannau o'r testun y nodwyd eu bod yn cyfateb wedi'u llôn-ladrata'n gofyn am farn academaidd. Er enghraifft, a gyfeirnodwyd y gwaith yn briodol, neu a gyflwynwyd y gwaith tebyg yn gyfreithlon fel rhan o waith grŵp?

Ystyriaethau cychwynnol ac ymchwiliad rhagarweiniol

- 49.** Mae'n arfer da i ddarparwyr gynnig cyfle cychwynnol i fyfyrwr ymateb i'r honiad(au) a wnaed yn eu herbyn. Gall hyn gynnwys cyfarfod â swyddog camymddygiad academiaidd y darparydd neu aelod staff perthnasol arall i drafod yr honiad. Dylai'r aelod staff benderfynu a ellir datrys yr achos bryd hynny, neu a oes angen ymchwilio iddo'n ffurfiol. Fel yma, gellir ymdrin ag achosion syml heb yr angen am ystyriaeth ffurfiol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd y myfyrwr yn cyfaddef iddo droseddu, neu gall ddod i'r amlwg bod yr honiad wedi cael ei wneud drwy gamgymeriad. Mae'r ymagwedd hon yn rhoi'r hyblygrwydd i ddelio ag achosion yn brydlon a chymesur. Fodd bynnag, nid yw'n arfer da ystyried mater disgyblu yn gwbl anffurfiol heb gadw unrhyw gofnodion.
- 50.** Ym mhob achos mae'n rhaid dweud wrth y myfyrwr yn ysgrifenedig ar ddechrau'r broses pa drosedd(au) academiaidd yr amheuir eu bod wedi'u cyflawni a pham. Dylid rhoi unrhyw dystiolaeth ategol sydd ar gael i'r myfyrwr. Dylai'r myfyrwr gael cyfle rhesymol i ymateb i'r honiad a'r dystiolaeth ategol cyn y gwneir penderfyniad ynghylch a yw wedi cyflawni'r trosedd. Os bydd y darparydd yn dwyn cyhuddiadau ychwanegol neu wahanol yn erbyn y myfyrwr yn ystod y broses ddisgyblu, mae'n bwysig bod y myfyrwr yn cael gwybod am yr honiadau newydd neu ddiwygiedig ac yn cael cyfle i ymateb.
- 51.** Mae'n arfer da dweud wrth y myfyrwr bod pryderon wedi'u codi ynghylch eu gwaith neu eu hymddygiad, hyd yn oed os yw'r darparydd yn penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau disgyblu.
- 52.** Pan fydd myfyrwr yn cyfaddef i fân droseddau, dylid ystyried y cyfaddefiad hwnnw wrth ystyried pa gosb i'w dyfarnu. Mae'n arfer da sicrhau bod myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o ddeilliannau cytuno i gosb yn ystod y cam hwn. Er enghraifft, dylid dweud wrth y myfyrwr a

fydd y drosedd yn cael ei chofnodi ar eu cofnod myfyrwr, ac a fydd yn cael ei hystyried mewn unrhyw achos disgyblu neu addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol.

- 53.** Gellir cynnal yr ymchwiliad rhagarweiniol ar lefel leol neu'n ganolog. Yn y naill achos neu'r llall, dylid darparu'r myfyrwr â chanlyniad ysgrifenedig, yn nodi'r penderfyniad a wnaed neu'n egluro beth fydd yn digwydd nesaf. Dylai'r myfyrwr hefyd fod â'r hawl i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed neu gosb a ddyfarnwyd yn ystod y cam hwn. Pan gynhelir y cam hwn ar lefel adrannol, dylai'r darparydd fod â phroses ar gyfer sicrhau bod achosion yn cael eu trin yn gyson ar draws pob adran.

Y cam ffurfiol

- 54.** Yn ystod y cam ffurfiol, caiff materion disgyblu fel arfer eu hystyried yn ganolog gan y darparydd.
- 55.** Dylai'r gweithdrefnau a ddilyni'r fod yn gymesur â natur y g yn a chymhlethdod y materion a godwyd. Mae'n arfer da i weithdrefn ddisgyblu nodi'r canlynol yn glir:
- I bwy mae'r gweithdrefnau'n berthnasol, ac a all y darparydd weithredu yn erbyn cyn-fyfyrwr, ac o dan ba amgylchiadau;
 - Pa broses fydd y cam ffurfiol yn ei dilyn;
 - A fydd yr aelod staff sy'n ymchwilio i'r honiad yn cwrdd â'r myfyrwr ai peidio, ac o dan ba amgylchiadau (mae cyfarfodydd o'r fath yn arfer da mewn achosion cymhleth neu ddifrifol);
 - Yr amgylchiadau ar gyfer cynnal gwrandawriad neu gyfarfod, neu banel yn ymgynnull;
 - Pwy fydd yn eistedd ar y panel;
 - A gaiff y panel gynnal ei drafodaethau'n electronig;
 - Y broses i'w dilyn mewn unrhyw wrandawriad neu gyfarfod; ac
 - A fydd cyfle ar wahân i'r myfyrwr gyflwyno sylwadau ychwanegol yn gl n â'r gosb os canfyddir bod camymddwyn wedi digwydd.

Ymchwiliadau yn ystod y cam ffurfiol

- 56.** Dylai'r ymchwiliad ffurfiol gael ei gynnal gan aelod o staff nad yw wedi ymwneud â'r achos y flaenorol. Fel arfer ni fydd yn briodol cadw enw'r aelod staff sy'n ymchwilio i'r honiad yn gyfrinachol Byddai hynny'n arwydd o ddiffyg tryloywder, a gallai danseilio hyder y myfyriwr yn y broses. Dylai aelodau staff sy'n gyfrifol am ymchwilio i honiadau o gamymddwyn fod wedi'u hyfforddi'n briodol, a bod adnoddau a chymorth ar gael iddynt.
- 57.** Mae'n arfer da i'r ymchwilydd gwrdd â'r myfyriwr, a dylai wneud hynny cyn gynted â phosibl. Dylai'r myfyriwr gael rhybudd o'r cyfarfod, ynghyd â digon o wybodaeth i'w alluogi i ymateb i'r honiad(au), yn ogystal â chopi o'r weithdrefn berthnasol yn ystod y cam hwnnw. Dylid dweud wrth y myfyriwr hefyd sut i gael gafaél ar gyngor a chefnogaeth, er enghraifft gan undeb y myfyrwyr, a phwy all fynd gyda nhw i'r cyfarfod. Mae'n arfer da darparu'r myfyriwr â chofnod o'r cyfarfod, ond fel rheol ni fydd angen iddo fod yn drawsgrifiad llawn.
- 58.** Mae'n hanfodol bod yn glir ynghylch beth yn union sy'n cael ei ymchwilio, er mwyn sicrhau bod yr ymchwilydd a'r myfyriwr yn deall diben a chwmpas yr ymchwiliad a'r deilliannau posibl. Efallai y bydd y sawl sy'n cynnal yr ymchwiliad i'r mater am siarad â staff neu fyfyrwyr eraill, yn ogystal ag ystyried dogfennau a thystiolaeth arall.
- 59.** Dylai'r aelod staff sy'n ymchwilio gynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ei ymchwiliadau sy'n amlinellu'r broses a ddilynwyd, y wybodaeth a ddaeth i'r golwg, a'u casgliadau. Dylai'r myfyriwr neu ei gynrychiolydd dderbyn copïau o'r wybodaeth a ddaeth i law yn ystod yr ymchwiliad, copi o adroddiad yr ymchwiliad a gwybodaeth am y camau nesaf yn y broses. Dylid hefyd rhoi gwybod i'r myfyriwr pwy y gall gysylltu â nhw gydag unrhyw ymholiadau ynglŷn â hynt yr achos.
- 60.** Gall yr ymchwilydd gyfeirio ei adroddiad at uwch aelod(au) staff eraill er mwyn cytuno ar benderfyniad, neu at banel disgyblu.

Gwrandawiadau disgyblu neu gyfarfodydd panel

- 61.** Dylid bob amser cynnal gwrandawiadau neu gyfarfodydd mewn achosion lle mae'r honiadau yn erbyn y myfyriwr yn ddifrifol, neu lle mae'r canlyniadau posibl i'r myfyriwr yn ddwys. Dylid hefyd cynnal gwrandawiadau neu gyfarfodydd pan fydd cwestiynau ffeithiol i'w penderfynu.
- 62.** Dylai aelodau'r panel fod wedi derbyn hyfforddiant cynhwysfawr. Mae'n arfer da cynnwys cynrychiolaeth myfyrwyr ar y panel lle bo hynny'n bosibl, er bod yn rhaid gwahaniaethu'n briodol rhwng y cynrychiolydd ar y panel, a'r rhai sy'n darparu cyngor a chymorth i fyfyrwyr.
- 63.** Dylai'r gweithdrefnau nodi:
- Pwy all eistedd ar banel a phwy all ei gadeirio;
 - Y gall y myfyriwr ddod â rhywun gyda nhw i'w cynrychioli
 - A gaiff y myfyriwr fynychu'r gwrandawriad neu'r cyfarfod drwy ddulliau amgen (er enghraifft drwy alwad fideo);
 - A fydd y gwrandawriad neu'r cyfarfod yn mynd rhagddo os bydd y myfyriwr yn dewis peidio â mynychu neu'n methu â mynychu;
 - Y broses ar gyfer aildrefnu dyddiad y gwrandawriad neu'r cyfarfod os na all y myfyriwr neu dyst arall fod yn bresennol am reswm da;
 - A ellir cwestiynu'r myfyriwr yn uniongyrchol yn ystod y gwrandawriad neu'r cyfarfod;
 - Y gall y myfyriwr alw tystion;
 - A fydd tystion eraill yn cael eu galw ac a all y myfyriwr ofyn cwestiynau iddynt yn uniongyrchol neu drwy gadeirydd y panel;
 - A all unrhyw dystion fynychu drwy ddulliau amgen (er enghraifft trwy alwad fideo);
 - Pwy all fynychu'r gwrandawriad neu'r cyfarfod ac yn rhinwedd pa rôl, ac a all y panel ofyn am gymorth gan gynghorwyr cyfreithiol neu bobl allanol eraill.

- 64.** Dylai'r gwrandawriad neu'r cyfarfod gael ei drefnu'n brydlon, a dylid rhoi rhybudd digonol ohono i'r myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys hysbysu'r myfyriwr ynglŷn â diben y cyfarfod neu wrandawriad; eu hawl i fod yn bresennol; sut i gael gafael ar gyngor a chymorth; unrhyw hawl i ddod â rhywun gyda nhw i'w cynrychioli a pha rôl y caniateir i unrhyw gynrychiolydd neu gydymaith ei chwarae yn y gwrandawriad neu'r cyfarfod. Os caniateir i'r myfyriwr fynychu'r gwrandawriad neu'r cyfarfod drwy ddulliau amgen (er enghraifft drwy alwad fideo), dylai'r darparparydd esbonio sut y bydd yn trefnu ac yn hwyluso hyn.
- 65.** Mae'n hanfodol rhoi gwybodaeth ymlaen llaw i'r myfyriwr am bwy fydd ar y panel, ynghyd â chopi o'r wybodaeth sydd i'w hystyried.
- 66.** Er tegwch, mae'n ofynnol i baneli fod yn rhydd o ragfarn neu unrhyw ganfyddiad rhesymol o ragfarn. Yng nghyd-destun proses ddisgyblu, gallai canfyddiad o ragfarn godi pan fydd gan y myfyriwr neu'r unigolyn sy'n gwneud yr honiad berthynas agos ag aelod o'r panel. Hefyd mewn achosion lle mae'r myfyriwr wedi gwneud cwyn ffurfiol am aelod o'r panel, neu pan fo aelod o'r panel wedi bod yn ymwneud â honiadau camymddwyn blaenorol yn erbyn y myfyriwr. Gall cymysgedd diwylliannol neu amrywioldeb y panel fod yn ystyriaeth berthnasol mewn rhai achosion disgyblu. Mae angen i'r darparparydd ystyried aelodaeth paneli a chymryd camau i sicrhau nad yw'r rhai sy'n gyfrifol am ddod i benderfyniad wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r mater, eu bod wedi derbyn hyfforddiant, a bod adnoddau a chefnogaeth briodol ar eu cyfer.
- 67.** Os yw darparparydd yn ei chael yn anodd ffurfio panel o bobl nad ydynt wedi ymwneud â'r myfyriwr yn flaenorol, gall ystyried:
- Defnyddio staff o adrannau eraill;
 - Defnyddio staff o ddarparparydd cyfagos; neu
 - Ymgynghori â'r myfyriwr ynghylch dewis aelodau'r panel.
- 68.** Mae gweithdrefnau disgyblu yn fewnol i ddarparparydd ac ni ddylent fod yn rhy ffurfiol. Fel rheol ni fydd angen i fyfyriwr na'r darparparydd gael eu cynrychioli'n gyfreithiol mewn gwrandawriad disgyblu, ond mae'n arfer da i'r gweithdrefnau ganiatáu hyn lle mae rhesymau da.
- 69.** Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw gyfarfod neu wrandawriad; dylai nodi pwy oedd yn bresennol, amlinelliad byr o'r achos, a'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed, gan gynnwys unrhyw gosb a ddyfarnwyd. Dylai'r rhesymau a roddir fod yn ddigon manwl i alluogi'r myfyriwr i ddeall y rhesymeg dros y penderfyniad ac am unrhyw gosb a ddyfarnwyd. Fel rheol nid oes angen gwneud recordiad llafar neu drawsgrifiad llawn o'r cyfarfod neu'r gwrandawriad, ond gallai fod yn ddefnyddiol gwneud hynny, yn enwedig lle mae'r achos yn gymhleth, neu os oes anghydfod sylweddol ynglŷn â ffeithiau.

Perthnasedd troseddau blaenorol

- 70.** Ni fydd record ddisgyblu flaenorol myfyriwr fel arfer yn berthnasol o ran penderfynu a yw wedi cyflawni trosedd. Fodd bynnag, os yw'r myfyriwr wedi cyflawni'r un drosedd neu drosedd debyg iawn o'r blaen, gall fod yn berthnasol. Er enghraifft, gall y ffaith fod myfyriwr wedi cael ei gosbi o'r blaen am arfer academiaidd gwael fod yn berthnasol mewn achos lle mae wedi'i gyhuddo o gyflawni llên-ladrad.
- 71.** Mae record ddisgyblu flaenorol y myfyriwr yn debygol o fod yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch unrhyw gosb a ddyfarnir.
- 72.** Os yw'r ymchwilydd yn penderfynu bod y drosedd flaenorol yn berthnasol, dylai ystyried ar ba gam y dylid rhannu'r wybodaeth hon gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad yw'n amharu ar allu'r panel i ddod i benderfyniad teg.

ASTUDIAETH ACHOS 6**Arfer academaidd gwael blaenorol**

Cyhuddir myfyriwr yn ei drydedd flwyddyn o lèn-ladrad yn ei draethawd hir: mae peth testun wedi'i gopiö o werslyfr heb unrhyw gyfeirnod. Cosbwyd y myfyriwr am ymarfer academaidd gwael yn ei ail flwyddyn ac ar yr achlysur hwnnw bu rhaid i'r myfyriwr fynychu sesiwn gloywi ar gamymddwyn academaidd. Nid yw'r testun a gopiwyd yn y traethawd hir yn helaeth ac mae'r darparwyd yn ystyried a yw'r myfyriwr yn euog o arfer academaidd gwael.

Mae'r darparwyd yn penderfynu bod y myfyriwr yn euog o lèn-ladrad, er nad yw'r copio'n helaeth, oherwydd y digwyddiad blaenorol o arfer academaidd gwael a oedd yn debyg iawn.

Cosb

- 73.** Dylai darparwyr gynnwys gwybodaeth yn eu gweithdrefnau am y cosbau posibl y gellir eu gosod ar fyfyrwyr. Dylai'r wybodaeth gynnwys arwydd o'r cosbau sy'n debygol o gael eu dyfarnu mewn gwahanol amgylchiadau, gan ddibynnu ar y math o drosedd a'i difrifoldeb.
- 74.** Dylai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad roi rhesymau dros y gosb a ddewiswyd. Dylai egluro pam nad oedd unrhyw gosb lai llym yn addas. Mae'n arfer da i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau fynd drwy'r ystod o gosbau llai sydd ar gael, ystyried pob un, a gwneud cofnod o'r ffaith ei fod wedi gwneud hynny. Os yw'r camymddwyn mor ddifrifol fel mai'r gosb fwyaf difrifol yw'r unig opsiwn, yna dylai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad egluro pam mai dyna yw'r achos.
- 75.** Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gofio y gall rhai cosbau am drosedd ddisgyblu arwain at oblygiadau mwy difrifol i rai myfyrwyr. Er enghraifft, gall cosb sy'n cyfyngu ar gynnydd myfyriwr gael effaith anfwriadol ar fyfyrwr sydd â chyflwr iechyd sy'n dirywio neu statws fisa myfyriwr rhyngwladol. Dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau egluro sut y maent wedi ystyried y goblygiadau hyn, yn ogystal ag amgylchiadau esgusodol y myfyriwr a ffactorau lliniarol eraill.

ASTUDIAETH ACHOS 7**Lleihau'r gosb oherwydd effaith anghymesur**

Canfuwyd fod myfyriwr wedi dod â deunydd heb ei awdurdodi i mewn i arholiad ymarferol. Mae'r Panel Disgyblu yn ystyried rhoi marc sero i'r myfyriwr a'i gwneud yn ofynnol iddo ail-sefyll yr arholiad y flwyddyn ganlynol. Mae'r myfyriwr yn fyfyrwr blwyddyn olaf, a bydd ei fisa yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Ni ellir sefyll yr arholiad ymarferol yng ngwlad enedigol y myfyriwr. Mae'r Panel yn penderfynu mai effaith y gosb honno fyddai atal y myfyriwr rhag graddio, a fyddai'n anghymesur â'r drosedd yn yr achos hwn. Yn hytrach, mae'n penderfynu caniatáu i'r myfyriwr ail-sefyll yr arholiad yn y cyfnod ail-sefyll yn ystod yr haf.

- 76.** Dylai darparwyr sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn dyfarnu cosbau yn gyson, er enghraifft, drwy gadw cofnodion dienw cryno o droseddau, ffactorau lliniarol, ac unrhyw gosb a ddyfarnwyd, fel y gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau gyfeirio atynt.
- 77.** Dylai myfyrwyr gael cyfle i gyflwyno unrhyw amgylchiadau lliniarol neu ffactorau y credant y dylid eu hystyried. Nid yw'r ffactorau hynny fel rheol yn berthnasol wrth benderfynu a yw myfyriwr yn euog o drosedd (oni bai bod gweithdrefnau'r darparwyd yn dweud fel arall). Ond fel rheol dylid eu hystyried wrth benderfynu ar y gosb os canfyddir bod y myfyriwr wedi cyflawni trosedd. Gallai ffactorau lliniarol gynnwys:
- Hon oedd y drosedd gyntaf;
 - Cyfaddefodd y myfyriwr i'r drosedd ar y cyfle cyntaf;
 - Mae'r myfyriwr wedi mynegi edifeirwch;
 - Canfuwyd deunydd heb ei awdurdodi ym meddiant y myfyriwr mewn arholiad, ond nid oedd yn bwriadu cael mantais ohono;
 - Mae gan y myfyriwr amgylchiadau personol sylweddol a effeithiodd ar ei allu i wneud penderfyniadau.

Achosion yn ymwneud â mwy nag un myfyriwr

- 78.** Mae'n bwysig yr ymdrinnir â honiadau ar y cyd, neu os oes grŵp dan sylw, mewn modd sy'n deg i'r holl fyfyrwyr y cyfeirir atynt. Dylai darparwyr feddwl yn ofalus am sut mae prosesau a phaneli yn ystod y cam ffurfiol yn cael eu cynnal:
- A oes cyfle cyfartal i glywed ac ymateb? Mae'n arfer da sicrhau bod yr holl fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r achos yn clywed ac yn gallu ymateb i'r hyn y mae'r lleill wedi'i ddweud neu'r dystiolaeth y maent wedi'i darparu. Ar gyfer gwrandawriadau panel, mae'n arfer da ystyried honiadau ar y cyd, neu os oes grŵp dan sylw, mewn un gwrandawriad, gyda'r holl fyfyrwyr yn bresennol. Dylid rhoi cyfle hefyd i fyfyrwyr siarad â'r panel yn breifat fel y gallant godi materion cyfrinachol neu sensitif sy'n ymwneud â lliniaru.
 - A oes cysondeb wrth wneud penderfyniadau? Lle nad yw'n bosibl neu'n ymarferol i faterion gael eu hystyried mewn un gwrandawriad, dylid cymryd camau i sicrhau bod agwedd gyson at yr holl fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r achos. Mae'n arfer da i'r un panel ystyried yr achos yn erbyn yr holl fyfyrwyr dan sylw p'un ai mewn gwrandawriad ar y cyd neu'n unigol.
 - A oes cysondeb o ran y gosb? Dylid gwneud penderfyniad ar gyfer pob myfyriwr yn unigol, gan gymryd eu hamgylchiadau penodol i ystyriaeth. Fodd bynnag, dylai fod cysondeb eang o ran y gosb a ddyfernir i bob myfyriwr sy'n cyflawni'r un drosedd dan amgylchiadau cyffelyb.
- 79.** Mae'n bwysig sicrhau na wneir penderfyniadau drwy ddiffyg. Dylai darparwyr sicrhau, pan glywir achosion ar wahân, nad yw'r casgliad bod un myfyriwr heb gyflawni'r drosedd yn arwain at y casgliad bod yn rhaid i fyfyrwr arall fod wedi'i chyflawni cyn i'w achos gael ei glywed.

Dod â'r cam ffurfiol i ben

- 80.** Dylai'r darparydd ysgrifennu at y myfyriwr yn nodi'r canlyniad ar ddiwedd y cam ffurfiol, gan roi esboniad clir ynghyd â'r rheswm dros bob penderfyniad ac unrhyw gosb mewn iaith blaen. Bydd hyn yn helpu'r myfyriwr i benderfynu a ddylai apelio.
- 81.** Dylai'r llythyr sy'n amlinellu'r penderfyniad hefyd roi gwybodaeth am y canlynol:
- Hawl y myfyriwr i apelio;
 - Ar ba sail y gall ef neu hi wneud hynny;
 - Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl;
 - Y weithdrefn briodol; a
 - Ble a sut i gael gafael ar gymorth.
- 82.** Os nad yw'r myfyriwr yn gwneud apêl o fewn y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny, dylai'r darparydd ddirwyn y mater i ben a hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig. Mae'n arfer da cyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau os yw'r myfyriwr yn gofyn i'r darparydd wneud hynny, ond dylai'r llythyr esbonio nad yw'r myfyriwr wedi cwblhau prosesau mewnol y darparydd. Mae SDA yn darparu canllawiau ar gyhoeddi Llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau.
- 83.** Dylai'r darparydd gadw cofnodion o brosesau disgyblu a'u deilliannau.

Y cam apêl

- 84.** Dylid caniatáu i'r myfyriwr apelio yn erbyn penderfyniad ei fod wedi cyflawni trosedd ddisgyblu, a/neu yn erbyn y gosb a ddyfarnwyd. Dylai'r apêl gael ei hystyried gan aelod o staff nad yw wedi bod yn gysylltiedig â'r achos yn ystod unrhyw gam blaenorol. Gall darparwyr ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwr (neu ei gynrychiolydd) gyflwyno apêl yn ysgrifenedig, drwy e-bost neu ar-lein drwy lenwi'r ffurflen briodol.

85. Gall y cam apêl gynnwys adolygiad o'r cam ffurfiol, neu ail-wrandawriad o'r achos o'r dechrau. Mae'n arfer da nodi'r amodau ar gyfer cyflwyno apêl. Gallai'r amodau hynny gynnwys:

- Na ddilynwyd y gweithdrefnau yn iawn;
- Bod y sawl a wnaeth y penderfyniad wedi dod i benderfyniad afresymol;
- Bod gan y myfyriwr dystiolaeth berthnasol newydd nad oedd yn gallu, am resymau dilys, ei darparu ynghynt yn y broses;
- Bod rhagfarn neu ganfyddiad rhesymol o ragfarn yn ystod y weithdrefn;
- Bod y gosb a ddyfarnwyd yn anghymesur, neu'n anghyson â'r gweithdrefnau.

86. Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch cwmpas apêl er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn deall ei phwrpas a pha mor bell mae'n mynd. Os yw'n ymddangos bod disgwyliadau'r myfyriwr yn mynd y tu hwnt i gwmpas y cam apelio, dylai'r darparydd egluro hyn i'r myfyriwr cyn gynted â phosibl yn ysgrifenedig, fel ei fod yn deall y canlyniadau posibl. Dylai'r gweithdrefnau ddweud a all y sawl sy'n gwneud y penderfyniad wrthdroi canlyniad y cam ffurfiol, gan ei ddisodli â'i benderfyniad ei hun, neu a oes angen cyfeirio'r mater yn ôl i'r cam ffurfiol i'w ailystyried.

87. Os bydd y myfyriwr yn apelio'n llwyddiannus yn erbyn canlyniad proses camymddwyn academiaidd, efallai y bydd angen i fwrdd arholwyr ailystyried achos y myfyriwr.

88. Os yw'r gweithdrefnau'n caniatáu gwrandawriad apêl, yna dylai'r gweithdrefnau gydymffurfio â'r egwyddorion a nodir ym mharagraffau 61 i 69, uchod.

Dod â'r cam apêl i ben

89. Os na chaiff yr apêl ei chadarnhau, neu os na chaniateir iddi fynd rhagddi oherwydd yr amodau y seiliwyd yr apêl arnynt, dylid anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at y myfyriwr o fewn 28 diwrnod. Dylai hyn gynnwys esboniad o'r penderfyniad y daethpwyd iddo a'r rhesymau drosto, a hynny mewn iaith syml. Bydd hyn o gymorth i'r myfyriwr benderfynu a yw'n bwriadu mynd â'r mater ymhellach.

90. Dylai'r penderfyniad hefyd roi gwybodaeth i'r myfyriwr am y canlynol:

- Ei hawl i gyflwyno cwyn i SDA i'w hadolygu
- Y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny
- Ble a sut i gael gafaél ar gyngor a chymorth.

91. Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cwyn i SDA yw 12 mis. Mae'n arfer da tynnu sylw'r myfyriwr at unrhyw ffactorau y mae'r darparydd yn ymwybodol ohonynt sy'n golygu ei bod yn arbennig o bwysig i'r myfyriwr fynd â'r mater at SDA yn brydlon (er enghraifft oherwydd bod y cwrs yn cael ei ddirwyn i ben).

92. Pan fydd apêl yn cael ei chadarnhau, dylai'r darparydd gyflwyno'r canlyniad yn ysgrifenedig i'r myfyriwr, gan egluro pa gamau y bydd y darparydd yn eu cymryd. Mae'n arfer da cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau os yw'r myfyriwr yn gofyn am un. Os yw'r canlyniad yn golygu cyfeirio'r achos yn ôl i'r cam ffurfiol i'w ailystyried, mae'n arfer da sicrhau bod y broses hon yn cael ei chwblhau cyn gynted â phosibl a, lle bo hynny'n ymarferol, o fewn terfyn amser o 90 diwrnod calendr.

Adolygiad allanol annibynnol (SDA)

93. Unwaith y bydd y cam apêl wedi'i gwblhau, mae gan y myfyriwr yr hawl i ofyn i SDA, y gwasanaeth ombwdsmon annibynnol, adolygu ei gŵyn ynglŷn â chanlyniad proses ddisgyblu'r darparydd. Mae angen cyflwyno'r gŵyn i SDA o fewn 12 mis i ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Rhan B: Gweithdrefnau disgyblu anacademaidd

Beth yw camymddwyn anacademaidd?

- 94.** Mater i ddarparwyr unigol yw penderfynu pa fathau o ymddygiad gaiff eu hystyried yn gamymddwyn anacademaidd. Dylai darparwyr sicrhau bod eu diffiniadau'n glir, a'u bod yn cael eu cyfleu'n glir i fyfyrwyr. Gallai enghreifftiau gynnwys:
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol;
 - Ymddygiad amhriodol, ymosodol neu fygythiol, gan gynnwys ar gyfryngau cymdeithasol;
 - Peryglu diogelwch a/neu lesiant staff, myfyrwyr eraill, neu ymwelwyr;
 - Camymddygiad rhywiol;
 - Trais, aflonyddu a throseddau casineb;
 - Ymddygiad sy'n debygol o ddwyn anfri ar y darparydd, megis ymddygiad aflonyddgar yn y gymuned;
 - Camddefnydd o'r rhynggrwyd, megis ymweld â gwefannau amhriodol, uwchlwytho/lawrlwytho cynnwys amhriodol, lledaenu firsau cyfrifiadurol;
 - Ymddygiad aflonyddgar ar safle'r darparydd, megis cychwyn larymau tân neu rwystro mynediad i adeiladau neu ystafelloedd;
 - Difrodi eiddo'r darparydd neu gamddefnyddio ei gyfleusterau;
 - Achosi pryder o ran iechyd neu ddiogelwch;
 - Dibynnu ar ddogfennaeth ffug neu dwyllodrus, a mathau eraill o dwyll y bwriedir iddynt ennill mantais, er enghraifft cyflwyno hawliadau amgylchiadau lliniarol twyllodrus neu ffugio tystiolaeth i gefnogi hawliadau amgylchiadau lliniarol (gellir hystyried yr olaf hefyd yn fater disgyblu academaidd);
 - Mathau eraill o ymddygiad arall a all hefyd fod yn drosedd dan y gyfraith.
- 95.** Dylai'r gweithdrefnau ddiffinio'n glir bob math o gamymddwyn, a nodi'r gosb bosibl y gellid ei dyfarnu, yn ogystal â dull y darparydd o ystyried ffactorau lliniarol.
- 96.** Bwriad gweithdrefnau disgyblu anacademaidd darparydd yw mynd i'r afael â chamymddwyn gan fyfyrwyr yn hytrach na datrys anghydfod rhwng unigolion. Yn gyffredinol, gall darparydd gymryd camau disgyblu yn erbyn un o'i fyfyrwyr mewn cysylltiad â'i gyfleusterau neu wasanaethau, neu weithgareddau myfyrwyr. Gall hyn gynnwys:
- Camymddwyn sy'n ymyrryd â gweithgareddau academaidd neu weinyddol y darparydd;
 - Camymddwyn yn, neu yng nghyffiniau, unrhyw adeilad a gaiff ei reoli gan y darparydd; a
 - Camymddwyn sy'n cael effaith ar fuddiannau ac enw da'r darparydd.
- 97.** Gall darparydd gymryd camau disgyblu lle mae'r ymddygiad wedi effeithio ar:
- Y darparydd ei hun;
 - Myfyriwr neu aelod staff y darparydd;
 - Eraill sy'n ymweld, yn gweithio neu'n astudio ar safle'r darparydd; neu
 - Aelod o'r cyhoedd.
- 98.** Gall darparydd hefyd gymryd camau disgyblu mewn ymateb i gamymddwyn:
- Sy'n digwydd yn ystod gweithgareddau oddi ar y campws megis lleoliadau gwaith a theithiau maes;
 - Sy'n digwydd wrth astudio mewn sefydliadau partner, fel ysgolion cyswllt;
 - Sy'n effeithio ar enw da'r darparydd yn y gymuned leol neu'n ehangach; neu
 - Sy'n digwydd ar gyfryngau cymdeithasol.

Aflonyddu, camwahaniaethu a bwlio

99. Dylai fod gan ddarparwyr weithdrefnau ar waith i ddelio â honiadau o aflonyddu, camwahaniaethu a bwlio. Mae gan ddarparwyr ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth arall i sicrhau bod staff, myfyrwyr ac eraill sy'n ymwneud â'r darparwydd yn cael eu hamddiffyn rhag camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.

100. Mae Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997 yn nodi bod aflonyddu yn cynnwys achosi pryder neu drallod i berson. Mae'r Ddeddf yn nodi bod aflonyddu yn cynnwys ymddygiad (ar o leiaf ddau achlysur) dim ond "pe bai rhywun rhesymol yn meddu ar yr un wybodaeth yn credu bod yr ymddygiad yn gyfystyr ag aflonyddu ar y llall".

101. Gall darparwyr ystyried honiadau o aflonyddu, camwahaniaethu a bwlio o dan eu gweithdrefn ddisgyblu anacademaidd, neu weithdrefn ar wahân. Yn y naill achos neu'r llall, dylai'r weithdrefn ddiffinio'n glir beth mae'r darparwydd yn ei olygu wrth aflonyddu, camwahaniaethu a bwlio a rhoi enghreifftiau o'r mathau o ymddygiad sy'n perthyn i bob diffiniad. Dyma rai enghreifftiau:

- Ymddygiad sy'n ddigroeso, yn ddiwahoddiad ac sy'n achosi effaith niweidiol;
- Ymosodedd geiriol neu gorfforol;
- Anfon negeseuon ymosodol neu fygythiol ar gyfryngau cymdeithasol;
- Defnyddio iaith gamwahaniaethol;
- Cam-drin neu ymosod yn rhywiol neu'n gorfforol.

102. Dylai darparwyr gymryd gofal i sicrhau bod myfyrwyr yn deall eu hopsiynau pan fyddant yn adrodd am ymddygiad a allai fod yn drosedd, a rhoi cymorth i'r myfyriwr pa bynnag gamau y maent yn dewis eu cymryd. Gallai'r opsiynau sydd ar gael i'r myfyriwr gynnwys adrodd y mater i'r heddlu, gofyn i'r darparwydd gymryd camau disgyblu, neu beidio â chymryd unrhyw gamau pellach. Os bydd y myfyriwr yn penderfynu rhoi gwybod i'r heddlu am y mater, dylai'r darparwydd helpu a chefnogi'r myfyriwr i wneud hynny. Dylai'r darparwydd ei hun ystyried

rhoi gwybod i'r heddlu am y digwyddiad(au) lle gallai diogelwch myfyrwyr neu staff fod mewn perygl.

103. Wrth gynllunio gweithdrefnau i ddelio ag aflonyddu, camwahaniaethu a bwlio, dylai darparwyr ystyried y canlynol:

- Mae canfyddiad y sawl a ddiodeffodd yn sgil yr ymddygiad dan sylw yn hynod bwysig;
- Nid oes rhaid cyfeirio ymddygiad yn erbyn person na'i fwriadu, iddo fod yn aflonyddu;
- Dylid cyfeirio pob myfyriwr (y cyhuddwr a'r sawl a gyhuddir) at ffynonellau cyngor a chefnogaeth gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.

Newid y diwylliant

104. Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd UUK: "Newid y diwylliant: Adroddiad Tasglu Prifysgolion y DU yn archwilio i drais yn erbyn menywod, aflonyddu a throseddau casineb sy'n effeithio ar fyfyrwyr prifysgol."³ Mae'r adroddiad yn crynhoi'r dystiolaeth a ystyriwyd gan y Tasglu yn ystod ei adolygiad ac yn tynnu sylw at enghreifftiau o arfer da ac argymhellion ar gyfer sut y gall prifysgolion ddatblygu eu harferion/ymateb i faterion yn fwy effeithiol yn y dyfodol. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at bwysigrwydd:

- Ymgysylltiad parhaus â myfyrwyr;
- Ymagwedd ar draws y sefydliad cyfan at hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i fyfyrwyr;
- Mecanweithiau adrodd gweladwy a hygyrch i fyfyrwyr;
- Staff wedi'u hyfforddi'n briodol ynghyd â chyswllt â phartneriaid arbenigol.

105. Efallai y bydd darparwyr yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at y canllaw hwn wrth ystyried eu hymagwedd tuag at achosion disgyblu myfyrwyr.

3 UUK Changing the culture: Adroddiad Tasglu Prifysgolion y DU yn archwilio i drais yn erbyn menywod, aflonyddu a throseddau casineb sy'n effeithio ar fyfyrwyr prifysgol

Achosion yn ymwneud â honiadau gan fyfyrwr yn erbyn myfyrwr arall neu aelod o staff

106. Pan fydd myfyrwr wedi cwyno wrth ei ddarparparydd am ymddygiad myfyrwr arall, mae gan y darparparydd yr un dyletswyddau a rhwymedigaethau i bob un o'r myfyrwyr dan sylw, ac mae angen iddo gydbwysu buddiannau pob myfyrwr wrth ystyried pa gamau i'w cymryd. Dylai darparwyr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu bod yn trin pob myfyrwr yn deg. Mae'n debygol y bydd tystiolaeth y myfyrwr sy'n gwneud yr honiad yn rhan allweddol o achos disgyblu yn erbyn y myfyrwr arall, a rhaid cymryd gofal i sicrhau bod pob un ohonynt yn cael eu trin yn deg, yn cael cyfle priodol i gyflwyno eu hachos, a chyfle priodol i herio tystiolaeth y llall. Fel rheol nid yw'n briodol rhoi cyfle i un myfyrwr groesholi'r llall, ac fel rheol dylid gofyn cwestiynau drwy'r panel disgyblu yn hytrach nag yn uniongyrchol, oni bai bod y myfyrwr yn cael ei gynrychioli.

107. Ar ddiwedd y broses ddisgyblu dylid rhoi rhywfaint o ddatrysiad o'r gŵyn i'r myfyrwr a wnaeth y gŵyn. Os canfyddir bod ymddygiad y myfyrwr arall wedi cael effaith niweidiol ar y myfyrwr a wnaeth y gŵyn, yna dylai'r darparparydd gynnig datrysiad iddo ar gyfer yr effaith honno.

108. Pan fydd myfyrwr yn gwneud cwyn am aelod o staff, dylid fel rheol cyfeirio'r g yn honno at broses ddisgyblu staff y darparparydd. Bydd canlyniad y broses fel arfer yn gyfrinachol i'r aelod staff, er y gall yr aelod staff gydsynio i wybodaeth gael ei rhannu â'r myfyrwr a wnaeth y gŵyn. Serch hynny, dylai'r myfyrwr sy'n gwneud y gŵyn gael rhywfaint o ddatrysiad i'w gŵyn. Os canfyddir bod ymddygiad yr aelod staff wedi cael effaith niweidiol ar y myfyrwr a wnaeth y gŵyn, yna dylai'r darparparydd gynnig datrysiad iddo ar gyfer yr effaith honno.

ASTUDIAETH ACHOS 8

Myfyrwraig yn cwyno am aelod o staff

Mae myfyrwraig yn cwyno bod tiwtor wedi gwneud sylwadau dro ar ôl tro am ei thatŵs a'i chlust-dlysau a.y.b. mewn ffordd a wnaeth iddi deimlo'n anghyfforddus. Ystyrir y mater o dan broses ddisgyblu staff y darparparydd. Mae'r darparparydd yn ysgrifennu at y fyfyrwraig yn ei sicrhau bod ei phryderon wedi'u cymryd o ddifrif. Mae'n ymddiheuro am y gofid a achoswyd, ac yn dweud ei fod yn bwriadu defnyddio astudiaeth achos anhysbys yn seiliedig ar ei phrofiadau yn ei ganllawiau ar gyfer y staff. Mae'r darparparydd yn rhoi sicrwydd i'r fyfyrwraig bod yr holl asesiadau ar gyfer y modiwl dan sylw yn cael eu cyflwyno'n anhysbys, a chânt eu marcio'n annibynnol gan ddau aelod o staff, felly ni fyddai'n bosibl i'r tiwtor effeithio ar ei marciau. Rhoddir sicrwydd i'r fyfyrwraig hefyd na chaiff y tiwtor ei bennu fel goruchwyliwr traethawd hir iddi yn y flwyddyn academiaidd ganlynol.

Nid yw'r darparparydd yn rhoi unrhyw fanylion ynglŷn â record ddisgyblu'r tiwtor i'r fyfyrwraig, nac unrhyw gamau disgyblu a gymerwyd.

Ystyriaethau cychwynnol ac ymchwiliad rhagarweiniol

- 109.** Mae llawer o ddarparwyr yn rhoi pŵer i aelodau staff a enwir wneud penderfyniadau ar achosion disgyblu ar lefel leol neu gyfeirio achos i'w ystyried yn ffurfiol. Er enghraifft, efallai y bydd warden neuadd yn gallu ystyried mân faterion disgyblu sy'n codi mewn llety myfyrwyr. Fel yma, gellir ymdrin ag mân achosion syml heb yr angen am ystyriaeth ffurfiol. Er enghraifft, gallai'r myfyriwr gyfaddef mân drosedd, neu mae'n bosibl bod yr honiad wedi'i wneud drwy gamgymeriad. Mae'r ymagwedd hon yn rhoi hyblygrwydd i'r darparydd ddelio ag achosion yn brydlon a chymesur. Fodd bynnag, nid yw'n arfer da ystyried mater disgyblu yn gwbl anffurfiol heb gadw unrhyw gofnodion.
- 110.** Ym mhob achos, rhaid hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig ar ddechrau'r broses am yr honiadau yn ei erbyn a sut yr ystyrir bod ei ymddygiad wedi tramgwyddo'r safonau disgwylid. Dylid rhoi unrhyw dystiolaeth ategol sydd ar gael i'r myfyriwr. Ni ddylai'r aelod staff sy'n cynnal yr ymchwiliad cychwynnol hwn fod wedi bod yn rhan o wneud yr honiad yn erbyn y myfyriwr. Dylai'r myfyriwr gael cyfle rhesymol i ymateb i'r honiad a'r dystiolaeth ategol cyn y gwneir penderfyniad ynghylch a yw wedi cyflawni'r drosedd. Os bydd y darparydd yn dwyn cyhuddiadau ychwanegol neu wahanol yn erbyn y myfyriwr yn ystod y broses ddisgyblu, mae'n bwysig bod y myfyriwr yn cael gwybod am yr honiadau newydd neu ddiwygiedig ac yn cael cyfle i ymateb.
- 111.** Mae'n arfer da dweud wrth y myfyriwr bod pryderon wedi'u codi ynghylch ei ymddygiad, hyd yn oed os yw'r darparydd yn penderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau disgyblu.
- 112.** Gall cyfryngu neu gymodi fod yn arbennig o ddefnyddiol wrth ddatrys anghydfod sy'n ymwneud â myfyrwyr yn gynnar, cyn belled â bod y myfyrwyr yn cytuno i roi cynnig ar hyn. Ni fydd yn briodol ar gyfer datrys pob materion disgyblu.
- 113.** Pan fydd myfyriwr yn cyfaddef i fân droseddau, dylid ystyried y cyfaddefiad hwnnw wrth ystyried pa gosb i'w dyfarnu. Mae hefyd yn arfer da sicrhau bod myfyrwyr yn gwbl ymwybodol o ddeilliannau cytuno i gosb yn ystod y cam hwn. Er enghraifft, dylid dweud wrth y myfyriwr a fydd y drosedd yn cael ei chofnodi ar eu cofnod myfyriwr, ac a fydd yn cael ei hystyried mewn unrhyw weithdrefn ddisgyblu neu addarwydd i ymarfer yn y dyfodol.
- 114.** Yn dilyn unrhyw ymchwiliad rhagarweiniol, dylid rhoi canlyniad ysgrifenedig i'r myfyriwr yn nodi'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Os yw'r ymchwilydd wedi dod i'r casgliad bod ymddygiad y myfyriwr yn gamymddwyn, dylai fod gan y myfyriwr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed neu unrhyw gosb a ddyfarnwyd yn ystod y cam hwn. Lle nad yw datrysiad lleol yn briodol neu'n bosibl a bod angen ymchwiliad ffurfiol, dylid dweud wrth y myfyriwr beth fydd yn digwydd nesaf. Dylai darparwyr gyfeirio myfyrwyr at ffynonellau cyngor a chymorth, er enghraifft gan undeb y myfyrwyr neu'r ganolfan cyngori myfyrwyr. Pan gynhelir y cam hwn ar lefel adrannol, dylai'r darparydd fod â phroses ar gyfer sicrhau bod achosion yn cael eu trin yn gyson ar draws pob adran.

Pan fo angen gweithredu ar unwaith yn ystod ymchwiliad disgyblu

- 115.** Mae gan ddarparwyr ddyletswydd gofal tuag at yr holl staff a myfyrwyr. Mae'n bosibl y bydd natur rhai materion disgyblu yn golygu bod angen i'r darparwydd weithredu ar unwaith. Gall y rhain gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:
- Achosion sy'n cynnwys bygythiad o niwed difrifol i'r myfyriwr a/neu eraill;
 - Achosion lle mae iechyd meddwl y myfyriwr mewn perygl neu lle mae'n amlwg bod y myfyriwr yn dioddef gofid sylweddol;
 - Materion o natur eithriadol o sensitif.
 - Achosion sy'n cynnwys bygythiad parhaus o darfu difrifol ar fyfyrwyr eraill neu ar weithgareddau'r darparwydd.
- 116.** Dylai gweithdrefnau disgyblu nodi pa gamau y gall darparwydd eu cymryd ac o dan ba amgylchiadau. Gallai enghreifftiau gynnwys cyfyngu ar fynediad i wasanaethau'r darparwydd, allgau dros-dro o lety'r brifysgol, neu gyfnod o waharddiad dros-dro.
- 117.** Nid yw cymryd gamau o'r math yma yn nodi bod y darparwydd wedi dod i'r casgliad bod y myfyriwr yn euog o gamymddwyn; mae'n fesur rhagofalus tra bod ymchwiliad llawn yn cael ei gynnal. Dylid gwneud hyn yn glir mewn gweithdrefnau disgyblu ac i'r myfyriwr unigol.
- 118.** Pan fydd y darparwydd yn bwriadu allgau'r myfyriwr o'i lety, bydd angen iddo ystyried hawliau'r myfyriwr o dan y ddeddfwriaeth sy'n amddiffyn tenantiaid, a'r codau ymarfer perthnasol.⁴ Mae'n arfer da sicrhau, pan fo angen symud myfyriwr o'i lety, bod llety amgen addas ar gael iddo.
- 119.** Dylai gwaharddiad fod yn ddewis olaf, pan fydd y risg o niwed i eraill (neu'r myfyriwr ei hun) yn gorbwysu'r anfantais bosibl i'r myfyriwr. Dylai'r darparwydd ystyried camau eraill y gall eu cymryd fel na chaiff astudiaethau'r myfyriwr eu tarfu'n ddiangen. Dylai'r darparwydd ystyried effeithiau gwaharddiad ar fyfyriwr sydd ag asesiadau ar y gweill, neu lle mae terfynau amser yn berthnasol i gwrs astudio neu drefniadau fisa'r myfyriwr.
- 120.** Dylai'r darparwydd esbonio i'r myfyriwr pam ei fod yn cael ei wahardd, ac am ba hyd. Dylai'r myfyriwr allu herio'r penderfyniad i'w wahardd. Dylai'r darparwydd adolygu'r gwaharddiad o bryd i'w gilydd, hyd yn oed os nad yw'r myfyriwr yn ei herio, yn enwedig os oes angen ymestyn y gwaharddiad dros-dro y tu hwnt i'r cyfnod cychwynnol.
- 121.** Gall fod yn anodd rheoli cwynion sy'n ymwneud â honiadau a wneir gan un myfyriwr yn erbyn myfyriwr arall. Mae gan ddarparwyr yr un ddyletswyddau a rhwymedigaethau i'r holl fyfyrwyr dan sylw ac mae angen iddynt gydbwysu buddiannau pob myfyriwr wrth ystyried pa gamau i'w cymryd. Dylai darparwyr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau eu bod yn trin pob myfyriwr yn deg. Efallai y bydd yn bosibl cymryd camau i ddiogelu'r myfyriwr sy'n gwneud yr honiad heb wahardd y myfyriwr arall, er enghraifft, mesurau i sicrhau nad yw myfyrwyr yn yr un grwpiau addysgu nac yn yr un llety, a'u bod yn cael mynediad at gyfleusterau ar wahanol adegau.
- 122.** Os bydd y myfyriwr sydd wedi'i wahardd yn herio'r gwaharddiad yn llwyddiannus, mae'n bosibl y bydd angen hysbysu'r myfyriwr neu'r aelod staff sydd wedi gwneud yr honiad bod y myfyriwr wedi cael caniatâd i ddychwelyd i'w lety neu adran.

⁴ Am wybodaeth am Godau Ymarfer ar gyfer Llety gweler Adnoddau Defnyddiol

Ymddygiad sy'n gyfystyr â throedd dan y gyfraith

- 123.** Fel rheol, yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a'r llysoedd sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin ag ymddygiad a allai fod yn drosedd. Gall ymddygiad troseddol hefyd fod yn groes i weithdrefnau disgyblu'r darparwydd, a gall y darparwydd, yn rhesymol, weithredu yn erbyn myfyriwr p'un a yw wedi'i gael yn euog o drosedd dan y gyfraith ai peidio. Nid yw'n rhesymol i ddarparwydd wrthod cymryd camau disgyblu dim ond oherwydd y gallai'r honiad a wnaed hefyd fod yn drosedd dan y gyfraith.
- 124.** Dylai darparwyr gymryd gofal i sicrhau bod myfyrwyr yn deall beth yw eu hopsiynau pan fyddant yn adrodd am ymddygiad a allai fod yn drosedd dan y gyfraith, a rhoi cymorth i'r myfyriwr pa bynnag gamau mae'n dewis eu cymryd. Gallai opsiynau'r myfyriwr gynnwys adrodd y mater i'r heddlu, gofyn i'r darparwydd gymryd camau disgyblu, neu beidio â chymryd unrhyw gamau pellach. Os yw myfyriwr yn adrodd am ymosodiad rhywiol i'r darparwydd, dylai roi gwybodaeth i'r myfyriwr am y ganolfan atgyfeirio agosaf ar gyfer ymosodiadau rhywiol. Os bydd y myfyriwr yn penderfynu rhoi gwybod i'r heddlu am y mater, dylai'r darparwydd roi pob cymorth i'r myfyriwr wneud hynny.
- 125.** Os yw'r heddlu neu'r llysoedd yn ymwneud â'r mater, fel rheol dylai darparwyr aros am ganlyniad yr achos hwnnw cyn cynnal ymchwiliad mewnol. Dylai'r darparwydd gadw mewn cysylltiad â'r myfyrwyr dan sylw, a chyda'r heddlu yn ystod y broses hon. Efallai y bydd angen i'r darparwydd gymryd rhyw fath o gamau dros-dro yn erbyn y myfyriwr a gyhuddir, er mwyn amddiffyn myfyrwyr eraill ac aelodau staff. Er enghraifft, gellir gwahardd myfyriwr dros-dro tra bod ymchwiliad llawn yn cael ei gynnal. Dylai darparwyr ystyried pob achos yn unigol, gan bwyso a mesur y risg i eraill yn erbyn yr anfantais bosibl i'r myfyriwr yn sgil gwaharddiad hirfaith tra bo'r ymchwiliad troseddol yn mynd rhagddo.
- 126.** Pan ddyfernir bod myfyriwr yn ddieuog o drosedd dan y gyfraith, neu lle mae'r ymchwiliad troseddol wedi cael ei ollwng, gall y darparwydd weithredu yn ei erbyn o hyd o dan ei weithdrefnau disgyblu. Dylai'r darparwydd nodi'n union ym mha ffordd mae ymddygiad y myfyriwr yn groes i'w bolisi disgyblu, a pha gamau y mae'n bwriadu eu cymryd.
- 127.** Os ceir y myfyriwr yn euog o drosedd dan y gyfraith, gall y darparwydd o hyd weithredu yn ei erbyn. Os caiff y myfyriwr ei garcharu, yna bydd angen i'r darparwydd ystyried a yw'n bosibl i'r myfyriwr i barhau â'i astudiaethau, ac a yw camau disgyblu yn angenrheidiol neu'n gymesur.
- 128.** Fel rheol nid yw'n briodol dyfarnu cosb academaidd, megis diddymu gradd, am drosedd ddisgyblu nad yw'n gysylltiedig ag astudiaethau academaidd y myfyriwr.
- 129.** Dylai gweithdrefnau disgyblu roi arweiniad ar sut y dylai staff gynnig cymorth i'r rheiny a gyhuddir o droseddau difrifol, yn ogystal â'r rhai sy'n gwneud yr honiadau. Mae'n arfer da i aelodau staff gofnodi manylion unrhyw honiad cychwynnol a'r hyn a ddwedwyd wrth y myfyriwr. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig mewn achosion lle gall y camymddwyn honedig hefyd fod yn drosedd dan y gyfraith. Bydd y cofnod hefyd ar gael i'r rhai sy'n ymchwilio i gŵyn ffurfiol yn nes ymlaen.
- 130.** Mae UUK a Pinsent Masons wedi cyhoeddi canllawiau i ddarparwyr addysg uwch ar "Sut i ymdrin â chamymddwyn myfyrwyr honedig a allai hefyd fod yn drosedd dan y gyfraith."⁵ Mae'n bosibl y bydd darparwyr yn ei chael yn ddefnyddiol cyfeirio at y canllawiau hyn wrth ystyried eu hymagwedd at achosion disgyblu.

5 Universities UK a Pinsent Masons: Canllawiau ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch: Sut i ymdrin â chamymddwyn myfyrwyr honedig a allai hefyd fod yn drosedd dan y gyfraith (Hydref 2016)

Y cam ffurfiol

- 131.** Yn ystod y cam ffurfiol, caiff materion disgyblu fel arfer eu hystyried yn ganolog gan y darparydd.
- 132.** Dylai'r gweithdrefnau a ddilynir fod yn gymesur â natur y gŵyn a chymhlethdod y materion a godwyd. Mae'n arfer da i weithdrefn ddisgyblu nodi'r canlynol yn glir:
- I bwy mae'r gweithdrefnau'n berthnasol, ac a all y darparydd weithredu yn erbyn cyn-fyfriwr, ac o dan ba amgylchiadau;
 - Pa broses fydd y cam ffurfiol yn ei dilyn;
 - A fydd yr aelod staff sy'n ymchwilio i'r honiad yn cwrdd â'r myfyriwr ai peidio, ac o dan ba amgylchiadau (mae cyfarfodydd o'r fath yn arfer da mewn achosion cymhleth neu ddifrifol);
 - Yr amgylchiadau ar gyfer cynnal gwrandawriad neu gyfarfod, neu banel yn ymgynnull;
 - Pwy fydd yn eistedd ar y panel;
 - Y broses i'w dilyn mewn unrhyw wrandawriad neu gyfarfod; ac
 - A fydd cyfle ar wahân i'r myfyriwr gyflwyno sylwadau ychwanegol ynglŷn â'r gosb os canfyddir bod camymddwyn wedi digwydd.

Ymchwiliadau yn ystod y cam ffurfiol

- 133.** Dylai'r ymchwiliad ffurfiol gael ei gynnal gan aelod o staff nad yw wedi ymwneud â'r achos y flaenorol. Fel arfer ni fydd yn briodol cadw enw'r aelod staff sy'n ymchwilio i'r honiad yn gyfrinachol Byddai hynny'n arwydd o ddiffyg tryloywder, a gallai danseilio hyder y myfyriwr yn y broses. Dylai aelodau staff sy'n gyfrifol am ymchwilio i honiadau o gamymddwyn fod wedi'u hyfforddi'n briodol, a bod adnoddau a chymorth ar gael iddynt.
- 134.** Mae'n arfer da i'r ymchwilydd gwrdd â'r myfyriwr, a dylai wneud hynny cyn gynted â phosibl. Dylai'r myfyriwr gael rhybudd o'r cyfarfod, ynghyd â digon o wybodaeth i'w alluogi i ymateb i'r honiad(au), yn ogystal â chopi o'r weithdrefn berthnasol yn ystod y cam hwnnw. Dylid hefyd dweud wrth y myfyriwr

sut i gael gafael ar gyngor a chymorth, er enghraifft gan undeb y myfyrrwyr, a phwy all fynd i'r cyfarfod gyda nhw. Mae'n arfer da darparu'r myfyriwr â chofnod o'r cyfarfod, ond fel rheol ni fydd angen iddo fod yn drawsgrifiad llawn.

- 135.** Mae'n hanfodol bod yn glir ynghylch beth yn union sy'n cael ei ymchwilio, er mwyn sicrhau bod yr aelod staff sy'n cynnal yr ymchwiliad a'r myfyriwr yn deall diben a chwmpas yr ymchwiliad a'r deilliannau posibl. Mae'n bosibl y bydd y sawl sy'n cynnal yr ymchwiliad i'r mater am siarad â staff neu fyfyrwr eraill, yn ogystal ag ystyried dogfennau a thystiolaeth arall. Os mai myfyriwr arall wnaeth yr honiad, mae'n arfer da i'r ymchwilydd hefyd gwrdd â'r myfyriwr sy'n gwneud yr honiad yn brydlon er mwyn egluro'r ffeithiau ac esbonio cwmpas yr ymchwiliad ac ateb unrhyw gwestiynau.
- 136.** Dylai'r aelod staff sy'n ymchwilio lunio adroddiad yn seiliedig ar eu gweithgareddau, gan amlinellu'r broses a ddilynwyd, y wybodaeth a ddaeth i'r golwg, a'u casgliadau. Dylai'r myfyriwr neu ei gynrychiolydd dderbyn copiâu o'r wybodaeth a ddaeth i law yn ystod yr ymchwiliad, copi o adroddiad yr ymchwiliad a gwybodaeth am y camau nesaf yn y broses. Dylid hefyd rhoi gwybod i'r myfyriwr pwy y gall gysylltu â nhw gydag unrhyw ymholiadau ynglŷn â hynt yr achos.
- 137.** Gall yr ymchwilydd gyfeirio ei adroddiad at uwch aelod(au) staff eraill er mwyn cytuno ar benderfyniad, neu at banel disgyblu.

Gwrandawriadau disgyblu neu gyfarfodydd panel

- 138.** Dylid bod amser cynnal gwrandawriadau neu gyfarfodydd mewn achosion lle mae'r honiadau yn erbyn y myfyriwr yn ddifrifol, neu lle mae'r canlyniadau posibl i'r myfyriwr yn ddwys. Dylid hefyd cynnal gwrandawriadau neu gyfarfodydd pan fydd cwestiynau ffeithiol i'w penderfynu.
- 139.** Dylai aelodau'r panel fod wedi derbyn hyfforddiant cynhwysfawr Mae'n arfer da cynnwys cynrychiolaeth myfyrrwyr ar y panel lle bo hynny'n bosibl, er bod yn rhaid gwahaniaethu'n briodol rhwng y cynrychiolydd ar y panel, a'r rhai sy'n darparu cyngor a chymorth i fyfyrwyr.

140. Dylai'r gweithdrefnau nodi:

- Pwy all eistedd ar banel a phwy all ei gadeirio;
- Y gall y myfyriwr ddod â rhywun gyda nhw i'w cynrychioli
- A gaiff y myfyriwr fynychu'r gwrandawriad neu'r cyfarfod drwy ddulliau amgen (er enghraifft drwy alwad fideo);
- A fydd y gwrandawriad neu'r cyfarfod yn mynd rhagddo os bydd y myfyriwr yn dewis peidio â bod yn bresennol neu'n methu â mynychu;
- Y broses ar gyfer aildrefnu dyddiad y gwrandawriad neu'r cyfarfod os na all y myfyriwr neu dyst arall fod yn bresennol am reswm da;
- A ellir cwestiynu'r myfyriwr yn uniongyrchol yn ystod y gwrandawriad neu'r cyfarfod;
- Y gall y myfyriwr alw tystion;
- A fydd tystion eraill yn cael eu galw ac a all y myfyriwr ofyn cwestiynau iddynt yn uniongyrchol neu drwy gadeirydd y panel;
- A all unrhyw dystion fynychu drwy ddulliau amgen (er enghraifft trwy alwad fideo);
- Pwy all fynychu'r gwrandawriad neu'r cyfarfod ac yn rhinwedd pa rôl, ac a all y panel ofyn am gymorth gan gynghorwyr cyfreithiol neu bobl allanol eraill.

141. Dylai'r gwrandawriad neu'r cyfarfod gael ei drefnu'n brydlon, a dylid rhoi rhybudd digonol ohono i'r myfyriwr. Mae hyn yn cynnwys hysbysu'r myfyriwr ynglŷn â diben y cyfarfod neu wrandawriad; eu hawl i fod yn bresennol; sut i gael gafael ar gyngor a chymorth; unrhyw hawl i ddod â rhywun gyda nhw i'w cynrychioli a pha rôl y caniateir i unrhyw gynrychiolydd neu gydymaith ei chwarae yn y gwrandawriad neu'r cyfarfod. Os caniateir i'r myfyriwr fynychu'r gwrandawriad neu'r cyfarfod drwy ddulliau amgen (er enghraifft drwy alwad fideo), dylai'r darparrydd esbonio sut y bydd yn trefnu ac yn hwyluso hyn.

142. Mae'n hanfodol rhoi gwybodaeth ymlaen llaw i'r myfyriwr am bwy fydd ar y panel, ynghyd â chopi o'r wybodaeth sydd i'w hystyried.

143. Er tegwch, mae'n ofynnol i baneli fod yn rhydd o ragfarn neu unrhyw ganfyddiad rhesymol o ragfarn. Yng nghyd-destun proses ddisgyblu, gallai canfyddiad o ragfarn godi pan fydd gan y myfyriwr neu'r unigolyn sy'n gwneud yr honiad berthynas agos ag aelod o'r panel. Hefyd mewn achosion lle mae'r myfyriwr wedi gwneud cwyn ffurfiol am aelod o'r panel, neu pan fo aelod o'r panel wedi bod yn ymwneud â honiadau camymddwyn blaenorol yn erbyn y myfyriwr. Gall cymysgedd diwylliannol neu o ran amrywioldeb y panel fod yn ystyriaeth berthnasol mewn rhai achosion disgyblu. Mae angen i'r darparrydd ystyried aelodaeth paneli a chymryd camau i sicrhau nad yw'r rhai sy'n gyfrifol am ddod i benderfyniad wedi cael unrhyw gysylltiad blaenorol â'r mater, eu bod wedi derbyn hyfforddiant, a bod adnoddau a chefnogaeth briodol ar eu cyfer.

144. Os yw darparrydd yn ei chael yn anodd ffurfio panel o bobl nad ydynt wedi ymwneud â'r myfyriwr yn flaenorol, gall ystyried:

- Defnyddio staff o adrannau eraill;
- Defnyddio staff o ddarparrydd cyfagos; neu
- Ymgynghori â'r myfyriwr ynghylch dewis aelodau'r panel.

145. Mae gweithdrefnau disgyblu yn fewnol i ddarparrydd ac ni ddylent fod yn rhy ffurfiol. Fel rheol ni fydd angen i fyfyrwr na'r darparrydd gael eu cynrychioli'n gyfreithiol mewn gwrandawriad disgyblu, ond mae'n arfer da i weithdrefnau ganiatáu ar gyfer hyn lle mae rhesymau teilwng dros wneud hynny.

146. Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o unrhyw gyfarfod neu wrandawriad; dylai nodi pwy oedd yn bresennol, amlinelliad byr o'r achos, a'r rhesymau dros y penderfyniadau a wnaed, gan gynnwys unrhyw gosb a ddyfarnwyd. Dylai'r rhesymau a roddir fod yn ddigon manwl i alluogi'r myfyriwr i ddeall y rhesymeg dros y penderfyniad ac am unrhyw gosb a ddyfarnwyd. Fel rheol nid oes angen gwneud recordiad llafar neu drawsgrifiad llawn o'r cyfarfod neu'r gwrandawriad, ond gallai fod yn ddefnyddiol gwneud hynny, yn enwedig lle mae'r achos yn gymhleth, neu os oes anghydfod sylweddol ynglŷn â ffeithiau.

ASTUDIAETH ACHOS 9

Arfer da wrth drefnu gwrandawriad

Cyhuddir myfyrwraig o ymddygiad aflonyddgar yn ei neuadd breswyl. Mae myfyrwyr eraill wedi cwyno bod y fyfyrwraig yn yfed yn drwm ac yn aml yn achosi helynt wedi nos. Ar ôl ymchwiliad anffurfiol, mae'r darparwydd yn ysgrifennu at y fyfyrwraig i ddweud bod ei hachos wedi'i chyfeirio at wrandawriad panel disgyblu. Mae'r llythyr:

- Yn nodi'r union honiad sydd wedi'i wneud yn erbyn y fyfyrwraig, gan gyfeirio at adran berthnasol y broses ddisgyblu;
- Yn amgáu copiâu o'r holl dystiolaeth a fydd gan y panel camymddwyn;
- Yn rhoi dyddiad arfaethedig y gwrandawriad, sydd bythefnos i ffwrdd;
- Yn egluro'r hyn y dylai'r fyfyrwraig ei wneud os na all fynychu'r gwrandawriad;
- Yn rhestru enwau'r bobl a fydd ar y panel, a phwy fydd yn cyflwyno'r achos yn ei herbyn;
- Yn dweud wrth y fyfyrwraig y gall ddod â rhywun gyda hi i'r gwrandawriad a'r hyn y caniateir i'r person hwnnw ei wneud; ac
- Yn dweud wrth y fyfyrwraig y gall hi ddisgwyl i'r panel ofyn cwestiynau iddi, ac y gall hithau ofyn cwestiynau i'r tystion eraill drwy gadeirydd y panel.

Perthnasedd troseddau blaenorol

147. Ni fydd record ddisgyblu flaenorol myfyriwr fel arfer yn berthnasol o ran penderfynu a yw wedi cyflawni trosedd. Serch hynny, mae'n debygol o fod yn berthnasol i benderfyniadau ynghylch unrhyw gosb a ddyfernir.

148. Os yw'r sawl sy'n cynnal yr ymchwiliad yn penderfynu bod y drosedd flaenorol yn berthnasol, dylai ystyried ar ba gam y dylid rhannu'r wybodaeth hon gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, er mwyn sicrhau nad yw'n amharu ar allu'r panel i ddod i benderfyniad teg.

ASTUDIAETH ACHOS 10

Ymddygiad aflonyddgar blaenorol

Cyhuddir myfyriwr o ymddygiad aflonyddgar yng nghyfleusterau chwaraeon y campws. Mae'r myfyriwr yn gwadu'r honiadau ac yn mynychu gwrandawriad panel. Ar ôl clywed yr holl dystiolaeth, mae'r Panel yn penderfynu bod y myfyriwr wedi ymddwyn mewn modd aflonyddgar, yn groes i'r rheoliadau disgyblu.

Ar ôl gwneud ei benderfyniad, ond cyn dyfarnu unrhyw gosb, mae'r Panel yn gofyn am wybodaeth yn ymwneud â throseddau disgyblaeth blaenorol.

Roedd y myfyriwr wedi derbyn rhybudd ysgrifenedig yn y gorffennol oherwydd ymddygiad aflonyddgar.

Daw'r Panel i'r casgliad, oherwydd bod y myfyriwr eisoes wedi'i rybuddio am ei ymddygiad, ei bod yn briodol dyfarnu cosb fwy difrifol. Mae'n penderfynu gwahardd y myfyriwr am bythefnos, a rhoi rhybudd ysgrifenedig terfynol iddo, gan nodi y byddai unrhyw ganfyddiadau pellach o ymddygiad aflonyddgar yn debygol o arwain at waharddiad parhaol.

Cosb

149. Dylai darparwyr gynnwys gwybodaeth yn eu gweithdrefnau am y cosbau posibl y gellir eu dyfarnu ar fyfyrwyr. Dylai'r wybodaeth gynnwys arwydd o'r cosbau sy'n debygol o gael eu dyfarnu mewn gwahanol amgylchiadau, gan ddibynnu ar y math o drosedd a'i difrifoldeb.

150. Dylai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad roi rhesymau dros y gosb a ddewiswyd. Dylai egluro pam nad oedd unrhyw gosb lai llym yn addas. Mae'n arfer da i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau fynd drwy'r ystod o gosbau sydd ar gael am y math o gamymddwyn, ystyried pob un, a gwneud cofnod o'r ffaith eu bod wedi gwneud hynny. Os yw'r camymddwyn mor ddifrifol fel mai'r gosb fwyaf difrifol yw'r unig opsiwn, yna dylai'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad egluro pam mai dyna yw'r achos.

151. Dylai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gofio y gall eich cael yn euog o drosedd ddisgyblu arwain at oblygiadau mwy difrifol i rai myfyrwyr. Er enghraifft, gallai cosb sy'n cynnwys cyfnod i ffwrdd o'u hastudiaethau gael effaith anfwriadol

ar fyfyrwr â chyflwr iechyd sy'n dirywio neu statws fisa myfyrwr rhyngwladol. Dylai'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau egluro sut y maent wedi rhoi ystyriaeth i'r goblygiadau hyn, yn ogystal ag amgylchiadau esgusodol y myfyrwr a ffactorau lliniarol eraill.

- 152.** Dylai darparwyr sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn dyfarnu cosbau yn gyson, er enghraifft drwy gadw cofnodion dienw cryno o droseddau, ffactorau lliniarol, a'r cosbau a ddyfarnwyd, fel y gall y rhai sy'n gwneud penderfyniadau gyfeirio atynt maes o law.
- 153.** Dylai myfyrwyr gael cyfle i gyflwyno unrhyw amgylchiadau lliniarol neu ffactorau y credant y dylid eu hystyried. Nid yw'r ffactorau hynny fel rheol yn berthnasol wrth benderfynu a yw myfyrwr yn euog o drosedd (oni bai bod gweithdrefnau'r darparwydd yn dweud fel arall). Ond fel arfer dylid eu hystyried wrth benderfynu ar y gosb os canfyddir bod y myfyrwr wedi cyflawni trosedd. Gallai ffactorau lliniarol gynnwys y canlynol:
- Mae'r drosedd yn enghraifft fach o drosedd ddifrifol, er enghraifft, mân ddifrod i eiddo;
 - Hon oedd y drosedd gyntaf;
 - Cyfaddefodd y myfyrwr i'r drosedd ar y cyfle cyntaf;
 - Mae'r myfyrwr wedi mynegi edifeirwch;
 - Mae gan y myfyrwr amgylchiadau personol grymus a effeithiodd ar ei allu i wneud penderfyniadau.

ASTUDIAETH ACHOS 11

Amgylchiadau lliniarol / cyfaddef y drosedd

Cyhuddir dau fyfyrwr o gychwyn larwm tân yn eu llety myfyrwyr. Mae Myfyrwr A yn cyfaddef ei ran yn y digwyddiad yn syth ac yn ysgrifennu llythyr ymddiheuro. Rhoddir rhybudd ysgrifenedig i Fyfyriwr A.

Dywed Myfyrwr B nad oedd hi'n rhan o'r hyn a ddigwyddodd, ond mae myfyrwyr eraill yn rhoi tystiolaeth ei bod hi. Canfyddir bod myfyrwr B wedi torri rheoliadau disgyblu'r darparwydd mewn panel disgyblu a rhoddir rhybudd ysgrifenedig iddi a rhaid iddi dalu diryw fach.

Achosion yn ymwneud â mwy nag un myfyrwr

- 154.** Mae'n bwysig yr ymdrinnir â honiadau ar y cyd, neu os oes grŵp dan sylw, mewn modd sy'n deg i'r holl fyfyrwyr y cyfeirir atynt. Dylai darparwyr feddwl yn ofalus am sut mae prosesau a phaneli yn ystod y cam ffurfiol yn cael eu cynnal:
- A oes cyfle cyfartal i glywed ac ymateb? Mae'n arfer da sicrhau bod yr holl fyfyrwyr sy'n ymwneud â'r achos yn clywed ac yn gallu ymateb i'r hyn y mae'r lleill wedi'i ddweud neu'r dystiolaeth y maent wedi'i darparu. Ar gyfer gwrandawriadau panel, mae'n arfer da ystyried honiadau ar y cyd, neu os oes grŵp dan sylw, mewn un gwrandawriad, gyda'r holl fyfyrwyr yn bresennol. Dylid rhoi cyfle hefyd i fyfyrwyr siarad â'r panel yn breifat fel y gallant godi materion cyfrinachol neu sensitif sy'n ymwneud â lliniaru.
 - A oes cysondeb wrth wneud penderfyniadau? Lle nad yw'n bosibl neu'n ymarferol clywed achosion gyda'i gilydd, dylid cymryd camau i sicrhau bod agwedd gyson at yr holl fyfyrwyr dan sylw. Mae'n arfer da i'r un panel ystyried yr achos yn erbyn yr holl fyfyrwyr sydd dan sylw, p'un ai mewn gwrandawriad ar y cyd neu'n unigol.
 - A oes cysondeb o ran y gosb? Dylid gwneud penderfyniad ar gyfer pob myfyrwr yn unigol, gan gymryd eu hamgylchiadau penodol i ystyriaeth. Fodd bynnag, dylai fod cysondeb eang o ran y gosb a ddyfernir i bob myfyrwr sy'n cyflawni'r un drosedd dan amgylchiadau cyffelyb.
- 155.** Mae'n bwysig sicrhau na wneir penderfyniadau drwy ddiffyg. Dylai darparwyr sicrhau, pan glywir achosion ar wahân, nad yw'r casgliad bod un myfyrwr heb gyflawni'r drosedd yn arwain at y casgliad bod yn rhaid i fyfyrwr arall fod wedi'i chyflawni cyn i'w achos gael ei chlywed.

Dod â'r cam ffurfiol i ben

156. Dylai'r darparydd ysgrifennu at y myfyriwr yn nodi'r canlyniad ar ddiwedd y cam ffurfiol, gan roi esboniad clir ynghyd â'r rheswm dros bob penderfyniad ac unrhyw gosb mewn iaith blaen. Bydd hyn yn helpu'r myfyriwr i benderfynu a ddylai apelio.

157. Dylai'r llythyr sy'n amlinellu'r penderfyniad hefyd roi gwybodaeth am y canlynol:

- Hawl y myfyriwr i apelio;
- Ar ba sail y gall ef neu hi wneud hynny;
- Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno apêl;
- Y weithdrefn briodol; a
- Ble a sut i gael gafael ar gymorth.

158. Os nad yw'r myfyriwr yn gwneud apêl o fewn y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny, dylai'r darparydd ddirwyn y mater i ben a hysbysu'r myfyriwr yn ysgrifenedig. Mae'n arfer da cyflwyno llythyr Cwblhau Gweithdrefnau os yw'r myfyriwr yn gofyn i'r darparydd wneud hynny, ond dylai'r llythyr esbonio nad yw'r myfyriwr wedi cwblhau prosesau mewnol y darparydd. Mae SDA yn darparu canllawiau ar gyhoeddi llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau.

159. Dylai'r darparydd gadw cofnodion o brosesau disgyblu a'u deilliannau.

Y cam apêl

160. Dylid caniatáu i'r myfyriwr apelio yn erbyn penderfyniad ei fod wedi cyflawni trosedd ddisgyblu, a/neu yn erbyn y gosb a ddyfarnwyd. Dylai'r apêl gael ei hystyried gan aelod o staff sydd ddim wedi bod yn gysylltiedig â'r achos yn ystod unrhyw gam blaenorol. Gall darparwyr ei gwneud yn ofynnol i fyfyriwr (neu ei gynrychiolydd) gyflwyno apêl yn ysgrifenedig, drwy e-bost neu ar-lein drwy lenwi'r ffurflen briodol.

161. Gall y cam apêl gynnwys adolygiad o'r cam ffurfiol, neu ail-wrandawriad o'r achos o'r dechrau. Mae'n arfer da nodi'r amodau ar gyfer cyflwyno apêl. Gallai'r amodau hynny gynnwys:

- Na ddilynwyd y gweithdrefnau yn iawn;
- Bod y sawl a wnaeth y penderfyniad wedi dod i benderfyniad afresymol;
- Bod gan y myfyriwr dystiolaeth berthnasol newydd nad oedd yn gallu, am resymau dilys, ei darparu ynghynt yn y broses;
- Bod rhagfarn neu ganfyddiad rhesymol o ragfarn yn ystod y weithdrefn;
- Bod y gosb a ddyfarnwyd yn anghymesur, neu'n anghyson â'r gweithdrefnau.

162. Mae'n bwysig bod yn glir ynghylch cwmpas apêl er mwyn sicrhau bod myfyrywyr yn deall ei phwrpas a pha mor bell mae'n mynd. Os yw'n ymddangos bod disgwyliadau'r myfyriwr yn mynd y tu hwnt i gwmpas y cam apelio, dylai'r darparydd egluro hyn i'r myfyriwr cyn gynted â phosibl yn ysgrifenedig, fel ei fod yn deall y canlyniadau posibl. Dylai'r gweithdrefnau ddweud a all y sawl sy'n gwneud y penderfyniad wrthdroi canlyniad y cam ffurfiol, gan ei ddisodli â'i benderfyniad ei hun, neu a oes angen cyfeirio'r mater yn ôl i'r cam ffurfiol i'w ailystyried.

163. Os bydd y myfyriwr yn apelio yn llwyddiannus yn erbyn canlyniad proses ddisgyblu, efallai y bydd angen i'r darparydd ystyried a fu effaith niweidiol ar y myfyriwr, ac a ddylai ddarparu datrysiad.

164. Os yw'r gweithdrefnau'n caniatáu gwrandawriad apêl, yna dylai'r gweithdrefnau gydymffurfio â'r egwyddorion a nodir ym mharagraffau 138 i 146, uchod.

Cwyn gan fyfyrwr arall

- 165.** Os cychwynnwyd y prosesau disgyblu yn dilyn cwyn gan fyfyrwr arall, mae'n arfer da hysbysu'r myfyrwr hwnnw pan fydd y cam ffurfiol wedi'i gwblhau. Os canfyddir bod ymddygiad y myfyrwr arall wedi cael effaith niweidiol ar y myfyrwr a wnaeth y gŵyn, yna dylai'r darparrydd gynnig datrysiad ar gyfer yr effaith honno.
- 166.** Os yw'r myfyrwr a wnaeth y gŵyn yn anfodlon â chanlyniad y broses ddisgyblu, dylai'r darparrydd roi gwybod iddynt pa gamau y gallant eu cymryd. Ni all tyst mewn proses ddisgyblu apelio yn erbyn canlyniad y broses honno, ond mae'n bosib y gallant wneud cwyn o dan y weithdrefn gwynion myfyrwyr os oes ganddynt bryderon ynghylch sut yr ymdriniwyd â'r mater, neu'r canlyniad. Ar ddiwedd y weithdrefn gwynion, dylai'r darparrydd gyflwyno Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i'r myfyrwr a wnaeth y gŵyn.

Dod â'r cam apêl i ben

- 167.** Os na chaiff yr apêl ei chadarnhau, neu os na chaniateir iddi fynd rhagddi oherwydd yr amodau y seiliwyd yr apêl arnynt, dylid anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau at y myfyrwr o fewn 28 diwrnod. Dylai hyn gynnwys esboniad o'r penderfyniad y daethpwyd iddo a'r rhesymau drosto, a hynny mewn iaith syml. Bydd hyn o gymorth i'r myfyrwr benderfynu a yw'n bwriadu mynd â'r mater ymhellach.
- 168.** Dylai'r penderfyniad hefyd roi gwybodaeth i'r myfyrwr am y canlynol:
- Ei hawl i gyflwyno cwyn i SDA i'w hadolygu
 - Y terfyn amser ar gyfer gwneud hynny
 - Ble a sut i gael gafeael ar gyngor a chymorth.

- 169.** Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cwyn i SDA yw 12 mis. Mae'n arfer da tynnu sylw'r myfyrwr at unrhyw ffactorau y mae'r darparrydd yn ymwybodol ohonynt sy'n golygu ei bod yn arbennig o bwysig i'r myfyrwr fynd â'r mater at SDA yn brydlon (er enghraifft oherwydd bod y cwrs yn cael ei ddirwyn i ben).
- 170.** Pan fydd apêl yn cael ei chadarnhau, dylai'r darparrydd gyflwyno'r canlyniad yn ysgrifenedig i'r myfyrwr, gan egluro pa gamau y bydd y darparrydd yn eu cymryd. Mae'n arfer da cyhoeddi Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau os yw'r myfyrwr yn gofyn am un. Os yw'r canlyniad yn golygu cyfeirio'r achos yn ôl i'r cam ffurfiol i'w ailystyried, mae'n arfer da sicrhau bod y broses hon yn cael ei chwblhau cyn gynted â phosibl a, lle bo hynny'n ymarferol, o fewn terfyn amser o 90 diwrnod calendr.

Adolygiad allanol annibynnol (SDA)

- 171.** Unwaith y bydd y cam apêl wedi'i gwblhau, mae gan y myfyrwr yr hawl i ofyn i SDA, y gwasanaeth ombwdsmon annibynnol, adolygu ei gŵyn ynglŷn â chanlyniad proses ddisgyblu'r darparrydd. Mae angen cyflwyno'r gŵyn i SDA o fewn 12 mis i ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.

Adnoddau defnyddiol a chyfeiriadau at ddogfennau mewn troednodyn

Cod Llety Rhwydwaith Achrediad y DU:

http://www.nationalcode.org/Upload/File/NationalCode_Edu.pdf

Taflen gynghori ar Hawliau Anabledd:

<https://www.disabilityrightsuk.org/making-complaint>

Canllaw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar GDPR:

<https://ico.org.uk/for-organisations/guide-to-the-general-data-protection-regulation-gdpr/>

UCM, A Degree of Risk: Melinau Traethawd a Thwylo ar Gontract:

<https://www.nus.org.uk/degreeofrisk>

Canllawiau SDA ar Lythyrau Cwblhau Gweithdrefnau:

<http://www.oiahe.org.uk/media/100365/oia-guidance-note-may-2016.pdf>

Canllawiau'r Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd er Addysg Uwch (ASA) ar sut i fynd i'r afael â thwylo ar gontract: 'Contracting to Cheat in Higher Education':

https://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/quality-code/contracting-to-cheat-in-higher-education.pdf?sfvrsn=f66af681_8

Llên-ladrad mewn Addysg Uwch, ASA: Gwasanaethau ysgrifennu traethodau wedi'u teilwra: archwiliad a'r camau nesaf i'r sector addysg uwch yn y DU (Awst 2016)

https://www.qaa.ac.uk/docs/qaa/quality-code/plagiarism-in-higher-education-2016.pdf?sfvrsn=308cfe81_2

Codau Llety Unipol:

<https://www.unipol.org.uk/the-code>

Cod Ymarfer Llety Prifysgolion y DU:

<https://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/Pages/accommodation-code-of-practice.aspx>

Prifysgolion y DU, Newid y diwylliant: Adroddiad Tasglu Prifysgolion y DU yn archwilio i drais yn erbyn menywod, aflonyddu a throseddau casineb sy'n effeithio ar fyfyrwyr prifysgol:

<http://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Pages/changing-the-culture-final-report.aspx>

Prifysgolion y DU, Sut i ddelio â chamymddwyn honedig myfyrwyr a allai hefyd fod yn drosedd:

<http://www.universitiesuk.ac.uk/policy-and-analysis/reports/Documents/2016/guidance-for-higher-education-institutions.pdf>

**Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol er
Addysg Uwch**

Second Floor
Abbey Wharf
57-75 Kings Road
Reading
RG1 3AB

Ffôn: 0118 959 9813
e-bost: enquiries@oiahe.org.uk
www.oiahe.org.uk

